

Adolygiad Blynyddol o'r Amcanion Llesiant a'r Cynllun Gwella 2017-18

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).....	34
Cydraddoldebau a'r iaith Gymraeg	36
Cwynion a chanmoliaeth corfforaethol.....	38
Gweithio mewn partneriaeth a chydweithio.....	39
Dadansoddiad o Fesurau Cenedlaethol Cymru	41
Argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru a Chynigion ar gyfer Gwella	48

Cyflwyniad

Yn yr adroddiad blynyddol hwn, amlinellir y cynnydd a wnaed gan y cyngor hyd yn hyn i gyflawni'r Amcanion Llesiant a'r nodau a nodir yng Nghynllun Gwella 2016-18. Dyma'r flwyddyn gyntaf ar gyfer adrodd am gynnydd yr amcanion llesiant a'r ail flwyddyn ar gyfer adrodd am gynnydd y nodau yng Nghynllun Gwella 2016-18.

Amlinella Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2017-2022 y camau a gymerir i gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn datgan bod rhaid gosod amcanion llesiant er mwyn gwneud y gorau o'n cyfraniad at nodau llesiant cenedlaethol.

Seiliwyd y Cynllun Gwella 2016-18 ar y themâu allweddol a oedd yn ffurfio Cynllun Corfforaethol 2012-17. Ym mis Ebrill 2016, cymeradwyodd y Cyngor llawn wyth Amcan Gwella ar gyfer 2016-18 i ddangos ymrwymiad y cyngor i welliant parhaus fel y nodir ym mholisi Llywodraeth Leol 2009. Dewiswyd yr amcanion trwy ymgynghori, ac maent yn cynrychioli meysydd y mae dinasyddion Casnewydd am i'r cyngor ganolbwyntio arnynt.

Mae'r Amcanion Gwella yn cyd-fynd â chyflawni'r Amcanion Llesiant a gytunwyd gan y Cabinet ym mis Mawrth 2017 ac maent yn cyfrannu atynt.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hi'n glir na ddylid trin dyletswyddau i osod ac adrodd ar amcanion llesiant yn wahanol i unrhyw amcanion sy'n arwain a llywio gweithredoedd a phenderfyniadau sefydliadau e.e. amcanion y Cynllun Gwella. Maent hefyd wedi nodi y dylid alinio ac integreiddio prosesau cynllunio ac adrodd. Fel y noda Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae angen i Amcanion Gwella adlewyrchu blaenoriaethau strategol allweddol awdurdodau, ac i bob pwrpas a diben, gellir trin amcanion llesiant ac amcanion gwella fel ei gilydd. Felly, trwy integreiddio prosesau ar gyfer gosod ac adrodd ar yr amcanion allweddol hyn, gall awdurdodau gyflawni eu dyletswyddau o dan y ddau faes o ddeddfwriaeth.

Crynodeb

Cytunwyd ar Amcanion Llesiant y Cyngor ar gyfer Casnewydd ym mis Mawrth 2017 a chyhoeddwyd hwy fel rhan o Gynllun Corfforaethol y Cyngor ym mis Tachwedd 2017.

Dengys yr adroddiad blynyddol hwn yn glir sut mae pob amcan llesiant yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a phum ffordd o weithio. Gwnaed cynnydd yn erbyn pob un o'r amcanion llesiant ac mae'r camau'n amlinellu sut mae pob maes wedi perfformio dros y 12 mis diwethaf a sut maent yn cyfrannu at y nodau llesiant.

Bu'r Cynllun Gwella 2016-18 yn llwyddiannus yn ystod yr ail flwyddyn ac mae wedi cyflawni sgôr gyffredinol o 'Wyrdd - da'. Er gwaethaf ymgyrch gynyddol i wireddu arbedion a hinsawdd economaidd fewnol heb ei thebyg, mae'r cynllun yn dangos perfformiad cadarn. Asesir bod cynnydd cyffredinol yn erbyn Amcanion y Cynllun Gwella yn 2017/18 yn 'dda', gyda'r rhan fwyaf o'r Amcanion Gwella'n perfformio'n dda. Un maes allweddol o gynnydd rhagorol yw 'cefnogi pobl ifanc i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant'. Adroddwyd ar berfformiad diwedd y flwyddyn ar gyfer pob amcan i'r Cabinet ym mis Gorffennaf; [cliciwch yma](#) i ddarllen yr adroddiad.

Mae pob un o'r wyth o amcanion y Cynllun Gwella yn gysylltiedig â'r Amcanion Llesiant a restrir isod:

Amcan Llesiant 1: Gwella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth

Amcan gwella 4 - Adfywio a datblygu'r ddinas

Amcan gwella 5 - Cefnogi pobl ifanc i mewn i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant

Amcan gwella 6 - Sicrhau'r canlyniadau addysg gorau ar gyfer plant

Amcan Llesiant 2: Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio tra'n gwarchod yr amgylchedd

Amcan gwella 4 - Adfywio a datblygu'r ddinas

Amcan gwella 7 - Cynyddu ailgylchu

Amcan Llesiant 3: Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn

Amcan gwella 1 - Gwella byw'n annibynnol i bobl hŷn

Amcan gwella 2 - Sicrhau fod gan bobl y gwasanaethau cymdeithasol cywir i ddiwallu eu hanghenion

Amcan Llesiant 4: Adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy

Amcan gwella 3 - Sicrhau bod gan bobl fynediad i lety addas

Amcan gwella 4 - Adfywio a datblygu'r ddinas

Amcan gwella 8 - Gwella canlyniadau ar gyfer cyfiawnder ieuencid

Cynydd yn erbyn amcanion

Mae'r canlynol yn amlinellu'r cynnydd a wnaed ar gyfer pob un o'r amcanion llesiant a'r amcanion gwella.

Amcan Llesiant 1: Gwella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth

Mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at nodau llesiant: Cymru ffyniannus, Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol. Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol Y Gymru a Garem yn nodi bod angen i blant gael y cychwyn gorau mewn bywyd o'r blynyddoedd cynnar iawn, a bod llesiant pawb yn dibynnu ar leihau anghydraddoldeb a mwy o werth ar amrywiaeth. Trwy'r safonau addysg a datblygu sgiliau gorau, gallwn helpu plant yng Nghasnewydd i gyrraedd eu potensial, cynyddu eu chyfleoedd cyflogaeth a ffyniant yn ddiweddarach mewn bywyd. Trwy bwyslais ar wella sgiliau a chanlyniadau addysgol, byddwn hefyd yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn cyfrannu at Gymru fwy cyfartal. Yn ogystal, byddwn yn gwella sgiliau a chryfhau'r gweithlu er budd diwydiant a chymdeithas yng Nghasnewydd a Chymru gyfan. Bydd yr amcan llesiant hwn yn dda i Gasnewydd oherwydd:

Tymor Hir - Mae rhagolygon economaidd wedi nodi tueddiadau i'r dyfodol megis gofynion sgiliau cynyddol cyflogwyr a chrebachu galwedigaethau di-grefft a lled-fedrus. Gallai hyn olygu prinder sgiliau lleol a rhanbarthol posibl i gyflogwyr yn y tymor canolig a'r hirdymor. Er mwyn parhau i fod yn gystadleuol, bydd angen i weithlu Casnewydd ymateb i ofynion sgiliau diwydiant a gwasanaethau modern.

Atal – Mae proffil Llesiant y Gymuned yn cyfeirio at bocedi o amddifadedd ac amrywiadau sylweddol o gyfle ac ansawdd bywyd rhwng gwahanol ardaloedd y ddinas. Bydd angen i Gasnewydd wneud cynnydd parhaus wrth ymdrin â chyfraddau NEET (nid mewn addysg neu gyflogaeth), diweithdra ieuencid, a chyrhaeddiad sgiliau a pherthnasedd os am osgoi beichiau tlodi i genedlaethau'r dyfodol. Bydd ymdrin â gofynion sgiliau yn atal prinder sgiliau posibl yn y dyfodol a allai atal twf economaidd.

Integreiddio – Mae'r amcan hwn yn ategu ac yn cefnogi ein hamcanion llesiant eraill: mae addysg a chyflogaeth yn ffactorau allweddol o ran iechyd; bydd gweithlu medrus yn cefnogi twf busnes ac yn helpu i ddenu mewnfuddsoddiad; bydd cyfleoedd addysg a chyflogaeth dda yn helpu i gynnal cymunedau cydlynol.

Cydweithio – Bydd cyflawni'r nod hwn yn llwyddiannus angen cydweithio â phartneriaid, gan gynnwys ysgolion, addysg bellach ac uwch, darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr, Canolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru.

Ymgysylltiad – Bydd ymgysylltu â busnesau a'r sector addysg yn allweddol i sicrhau bod y cynnig addysg a hyfforddiant mwyaf priodol ar gael.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r hyn yr ydym wedi'i wneud hyd yma, ac mae'r astudiaeth achos isod yn enghraifft o sut mae pethau wedi gwella yn y maes hwn:

Camau	Cynnydd
<p>Gwella lefelau cyrhaeddiad ysgolion i sicrhau canlyniadau addysgol gorau i blant</p>	<p>Y rhagfynegiad ysgol Cyfnod Allweddol 4 Mehefin 2018 ar gyfer dangosydd cynhwysol Lefel 2 oedd 60.6%, yn erbyn perfformiad 2017 o 55.5%.</p> <p>Cynhaliodd yr Awdurdod Lleol gyfarfodydd Monitro'r Cynllun Ymyrraeth misol gydag ysgolion sydd wedi'u categorioeddio'n 'goch' ac sydd angen cefnogaeth uchaf y Gwasanaeth Cyflawniad Addysg (EAS). Ar hyn o bryd, mae 4 ysgol wedi'u categorioeddio'n goch.</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfodydd Hanner tymor Bwrdd Gwella Addysg (EIB) ar gyfer ysgolion sydd wedi'u categorioeddio'n Oren. Mae 5 ysgol ar hyn o bryd yn cael eu categorioeddio'n oren a disgwylir i hyn ostwng yn Hydref 2018.</p>
<p>Cefnogi pobl ifanc i addysg, chyflogaeth a hyfforddiant</p>	<p>Rhoddyd data heb ei wirio i'r ysgolion am NEET Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant, a gweithiodd y Cydlynnydd Fframwaith Ymgysylltu a Chynnydd Ieuenctid gyda phob Ysgol Uwchradd, Coleg Gwent, Gyrfa Cymru, Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD), Gwasanaethau Cymdeithasol a Darparwyr Dysgu i sicrhau bod cymaint o bobl ifanc â phosibl yn cael dilyniant cadarnhaol. Cynhaliwyd cyfarfodydd dyrannu projectau Anelu i Gyflawni ym mhob un o'r 8 Ysgol Uwchradd a'r UCD.</p> <p>Mae llinyn Plant a Phobl Ifanc Teuluoedd yn Gyntaf wedi parhau i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Bu'r ffocws ar sicrhau canlyniadau cadarnhaol gan gyfranogwyr y project trwy waith 1 i 1 ac ymyriadau gwaith grŵp. Lle nodwyd anghenion cymorth ychwanegol, darparodd staff gwaith ieuenctid lefelau priodol o ymyrraeth, er enghraifft, rydym wedi codi nifer o atgyfeiriadau sy'n ymwneud â CSE, gan gynnwys ymyriadau 1: 1 a gwaith grŵp.</p> <p>Cynhaliwyd gwaith uniongyrchol gyda Gyrfa Cymru i sicrhau bod</p>

Camau	Cynnydd
	<p>data a systemau tracio yn eu lle ac yn gweithio'n effeithiol i dracio pob person ifanc ar y cyfnod pontio. Golyga hyn gynnig cyfleoedd dysgu i bobl ifanc 16-17 oed i'w galluogi i ailymuno â chyfleoedd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.</p>
<p>Lleihau anghydraddoldebau mewn addysg trwy wella canlyniadau addysgol i ddisgyblion dan anfantais oherwydd tlodi</p>	<p>Mae gosod targedau statudol a chynnydd tuag at fonitro targedau yn rhoi ffocws penodol ar gyrhaeddiad dysgwyr Cinio Ysgol am Ddim (FSM) sy'n galluogi'r Awdurdod Lleol i herio ysgolion unigol ar berfformiad disgyblion dan anfantais oherwydd tlodi. Mae'r defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG) gan ysgolion wedi'i fonitro gan Ymgynghorwyr Her ar ran yr Awdurdod Lleol.</p>
<p>Gwella lefelau sgiliau sylfaenol a chynyddu chapasiti personol i gynorthwyo mwy o bobl i fynd i mewn i gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg barhaus</p>	<p>Mae Ysbrydoli i Weithio (I2W) yn parhau i sefydlu ei hun yng Nghasnewydd. Parha staff y project i gynnal allgymorth ac maent wedi bod yn ymdrechu i gysylltu â phobl ifanc, a nodwyd gan Gyrfa Cymru, fel rhai nad oes ganddynt gyrchfan. Mae I2W wedi sefydlu llwybr atgyfeirio o fewn y ganolfan waith ac mae gennym wasanaeth galw heibio wythnosol i sicrhau bod ein gwasanaethau yn cael eu hyrwyddo.</p> <p>Cawsom geisiadau am hyfforddiant Cymorth Cyntaf a isgontractwyd i ddarparwr lleol a argymhellwyd gan Ddysgu Cymunedol Casnewydd. Disgwylwn 2 o ganlyniadau cymhwyster o hyn, yn benodol i gleientiaid I2W.</p> <p>Yn ystod 2017/18, roedd 17 o gyfranogwyr wedi'u cofrestru, gyda 9 o bobl ifanc yn cymryd rhan weithredol.</p> <p>Canlyniadau Project Ysbrydoli i Gyflawni: 34 o gyfranogwyr wedi'u cofrestru 31 o gyfranogwyr yn ennill cymwysterau 12 o gyfranogwyr yn ennill addysg/ hyfforddiant 9 o gyfranogwyr yn ennill cyflogaeth</p> <p>Prentisiaethau Blwyddyn 2 y cyswllt ag ALS sy'n cyflenwi prentisiaethau (gan gynnwys Sgiliau Hanfodol Cymru) o fewn y sector gofal ar draws Casnewydd, Tor-faen, Caerdydd a Sir Fynwy yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gydag 11 unigolyn gan gynnig cymorth ac arweiniad i gwblhau cymhwyster. Rydym yn y broses o gytuno ar delerau gyda Chonsortium Coleg Gwent. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gyda'r bwriad o gyflwyno prentisiaethau Datblygu Cymunedol a Chwaraeon a Hamdden ar draws y Ddinas.</p> <p>Rhaglen Sgiliau ar gyfer y Dyfodol Dinas-Ranbarth Caerdydd Gweithio gyda'r Fargen Ddinesig i ddatblygu rhaglen i gefnogi datblygu sgiliau ar draws y rhanbarth a chefnogi busnesau lleol i gymryd rhan mewn cyflogi prentisiaid.</p>

Camau	Cynnydd
	<p>Taith i Waith (ESF) Cymeradwywyd cynllun busnes Taith i Waith ym mis Hydref 2017 gyda Llythyr Cynnig Grant Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn cadarnhau'r ddarpariaeth am 3 blynedd o 1 Tachwedd 2017. Cymeradwywyd y gweithrediad ar draws Casnewydd, Sir Fynwy a Chaerdydd gan Gyngor Dinas Casnewydd, Cymdeithas Dai Sir Fynwy a Chyngor Dinas Caerdydd. Ar hyn o bryd, mae Casnewydd wedi derbyn 41 o atgyfeiriadau, cynhelir asesiadau cychwynnol i bennu cymhwyster a'r ffynhonnell gefnogaeth fwyaf priodol.</p> <p>Sgiliau mewn Gwaith (ESF) Mae'r Grŵp Datblygu Sgiliau mewn Gwaith wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd i ddatblygu'r Cynllun Busnes. Cynigiodd WEFO gyfnod cyflenwi arfaethedig ar gyfer y gweithrediad hyd at fis Rhagfyr 2022, gobeithir y bydd cymeradwyaeth yn cael ei gyflawni erbyn dechrau'r Haf 2018.</p>
<p>Cynhyrchu a gweithredu strategaeth ar gyfer cyflenwi cyfleoedd Dysgu Oedolion yn y Gymuned a chyfleoedd dysgu gydol oes</p>	<p>Parhaodd CDC i gyflenwi'r rhaglenni Ysbrydoli i Weithio ac Ysbrydoli i Gyflawni.</p> <p>Cyflawnwyd y canlyniadau canlynol gan y rhaglen Cymunedau ar gyfer Gwaith:</p> <p>Blaenoriaeth 1 (25+) a Blaenoriaeth 3 (16-24 oed) 73% - Cyfradd Ymgysylltu 150% - Mynd i mewn i gyflogaeth gynaliadwy 98% - Cyfradd ymgysylltu P3 69% - Mynd i mewn i gyflogaeth gynaliadwy P3</p>
<p>Datblygu sgiliau digidol trwy gefnogaeth i ysgolion a rhaglenni TG cymunedol gan gynnwys Siarter Cynhwysiant Digidol</p>	<p>Gweithio gyda Chymunedau Digidol Cymru trwy grŵp Digidol Casnewydd i hyrwyddo lleoliadau wifi am ddim a'r defnydd o Siarter Cynhwysiant Digidol</p>
<p>Gwella presenoldeb yn yr ysgol, lleihau gwaharddiadau a gwella diogelu a llesiant</p>	<p>Ymgynghorwyd â phrifathrawon cynradd ac maent wedi cytuno i gyfnod prawf 6 mis o'r Protocol Symudiadau wedi'u Rheoli Ysgolion Cynradd gyda'r bwriad o ostwng gwaharddiadau ysgolion cynradd. Mae diwygiad o'r protocol Symudiadau wedi'u Rheoli Ysgolion Uwchradd ar y gweill gydag Addysg ganolog a staff yr ysgol.</p> <p>Roedd presenoldeb ysgol gynradd 2017/18 yn 94.7%, cynnydd o 0.3% ar y flwyddyn academaidd flaenorol. Roedd presenoldeb Ysgol Uwchradd 2017/18 yn 93.6%, cynnydd o 0.4% ar y flwyddyn academaidd flaenorol. Gwelwyd gwelliant yn y cyfraddau presenoldeb yn ystod 2017/18 ac fe'u cefnogwyd gan raglen ddinas gyfan o wella arferion sy'n gysylltiedig â phroses Callio, parhad</p>

Camau	Cynnydd
	fforwm presenoldeb tymhorol, mwy o ddefnydd o Hysbysiadau Cosb Benodedig ac ymgyrchoedd cyfryngau. Rhoddwyd targedau presenoldeb heriol i ysgolion unigol, a gafodd eu tracio a'u herio.

5. Cefnogi pobl ifanc i mewn i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant – Rhagorol – Seren Werdd

Amcan: Mae tystiolaeth o'r gwaith a wnaed gan yr Athro David Egan (ar ran Sefydliad Joseph Rowntree) yn awgrymu bod ymdrechion i atal pobl ifanc rhag bod yn NEET yn cael mwy o effaith yn yr hirdymor na gwaith a wneir i helpu pobl ifanc NEET i ddychwelyd at ddarpariaeth. Mae Amcan Gwella Cynorthwyo Pobl ifanc i aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn canolbwyntio ar nodi'n gynnar bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio rhag addysg a hyfforddiant, rhannu gwybodaeth a darpariaeth ychwanegol a phenodol i ddiwallu anghenion pobl ifanc. Mae'r amcan hwn yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cymru o 'Gymru ffyniannus', 'Cymru o gymunedau cydlynol' a 'Chymru fwy cyfartal'.

Mae'r amcan hwn yn cael ei raddio yn seren werdd - rhagorol; mae'r holl gamau gweithredu a mesurau ar y trywydd iawn.

6. Sicrhau'r canlyniadau addysgol gorau ar gyfer plant – Da - Gwyrdd

Amcan: Sicrhau ein bod yn ennyn diddordeb ein disgyblion yn effeithiol mewn addysg fel y gallant gael y deilliannau addysg gorau posibl. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr sy'n agored i niwed a all fod mewn perygl o fethu â chyrraedd eu lefel cyrhaeddiad ddisgwylidig. Mae'r amcan hwn yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cymru o 'Gymru ffyniannus', 'Cymru o gymunedau cydlynol' a 'Chymru fwy cyfartal'.

Mae'r amcan hwn yn cael ei raddio yn wyrdd - da; mae'r holl gamau gweithredu ar y trywydd iawn, cynnydd da wedi ei wneud drwy'r flwyddyn.

Amcan Llesiant 2: Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio tra'n gwarchod yr amgylchedd

Mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at nodau llesiant: Cymru ffyniannus, Cymru gydnerth, Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Noda'r Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol Y Gymru a Garem bod buddsoddi mewn tyfu ein heconomi leol yn hanfodol ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol ac mae byw o fewn terfynau amgylcheddol byd-eang, gan reoli ein hadnoddau'n effeithlon a gwerthfawrogi ein hamgylchedd, yn hanfodol. Mae'r Amcan Llesiant hwn yn ymdrin â'r ddau fater hyn. Bydd ein ffocws arfaethedig ar y sectorau ynni adnewyddadwy a digidol arloesol yn adeiladu ar gryfder presennol, yn cynnig cyfleoedd ar gyfer twf ac yn ceisio diogelu'r amgylchedd, yn cyfrannu at greu Cymru ffyniannus, Cymru gydnerth a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae'r amcan yn cydnabod bod amddiffyn ein seilwaith gwyrdd a'n hasedau treftadaeth/diwylliannol yn hanfodol i'n heconomi twristiaeth, yn ogystal â chyfrannu at iechyd a llesiant a chefnogi ein cynnig mewnfuddsoddi.

Bydd yr amcan llesiant hwn yn dda i Gasnewydd oherwydd:

Tymor Hir – Mae'r amcan yn ceisio creu ffyniant ac ansawdd bywyd i bobl Casnewydd nawr ac yn y dyfodol. Mae'r sectorau twf a nodwyd, gan gynnwys ynni adnewyddadwy a thechnoleg, yn allweddol i ail-gydbwysu gweithgarwch economaidd y ddinas am y tymor hwy a symud i ffwrdd o'r orddibyniaeth bresennol ar y sector cyhoeddus. Anoga'r amcan fuddsoddiad mewn diogelu at y dyfodol seilwaith y ddinas mewn meysydd megis cynnal a chadw ffyrdd, rheilffyrdd ac

amddiffynfeydd rhag llifogydd, tra bod projectau buddsoddi trawsnewidiol posibl fel rhan o'r Fargen Ddinesig a Dinasoedd y Great Western yn edrych ymlaen dros 20 mlynedd. Mae tyfu economi twristiaeth y ddinas yn dod â budd ychwanegol o warchod asedau naturiol a threftadaeth y ddinas yn y tymor hir.

Atal – Bydd adfywio a thwf economaidd yn lleihau risgiau dirywiad yn y ddinas, yn enwedig yng nghanol y ddinas, ac yn helpu i atal mwy o ddiweithdra/ansawdd bywyd is.

Cydweithio – Bydd gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru, darparwyr busnes, addysg a hyfforddiant a Chyfoeth Naturiol Cymru yn hanfodol i gyflawni'r amcan hwn. Bydd gweithio gyda phartneriaid y Fargen Ddinesig a Dinasoedd y Great Western yn gwneud y gorau o'r buddion economaidd i Gasnewydd a'r rhanbarth.

Integreiddio – Integreiddio gyda Strategaeth Twf Economaidd Casnewydd, y Cynllun Datblygu Lleol a'n holl Amcanion Llesiant.

Ymgysylltiad – Nododd gweithgarwch ymgysylltu yr awydd am fwy o fuddsoddiad canol y ddinas ac am fwy o gyfleoedd gwaith. Roedd edrych ar ôl seilwaith gwyrdd y ddinas hefyd yn un o'r "dymuniadau" a enwyd amlaf ar gyfer y dyfodol.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r hyn yr ydym wedi'i wneud hyd yma, ac mae'r astudiaeth achos isod yn enghraifft o sut mae pethau wedi gwella yn y maes hwn:

Camau	Cynnydd
Arbenigo mewn tyfiant busnes gwerth uchel	Mae'r project i ddod ag Academi Feddalwedd Genedlaethol Prifysgol Caerdydd i'r Orsaf Wybodaeth yn parhau ar y rhaglen. Hefyd, mae'r Cyngor yn asesu dichonoldeb ar gyfer ardal Gwella Busnes Digidol i Gasnewydd a fydd yn ysgogi ac yn cefnogi ymhellach ei ecosystem ddigidol sy'n tyfu'n gyflym.
Tyfu'r economi fel rhan o'r rhanbarth ehangach - cydweithio er mwyn cystadleuaeth	Chwaraeodd Cyngor Dinas Casnewydd ran allweddol i ddatblygu'r Cynllun Adfywio Rhanbarthol i Ddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR). Ar hyn o bryd, mae'r cyngor hefyd yn arwain datblygiad strategaeth safleoedd ac eiddo ar gyfer y CCR.
Hyrwyddo ac arloesi ar gyfer entrepreneuriaeth, cefnogi datblygiad cynhenid	Parhau i gyflwyno Grantiau Datblygu Busnes i gefnogi busnesau newydd neu fusnesau presennol gyda chost rhentu eiddo, adleoli, offer neu welliannau blaen siop.
Creu amgylchedd economaidd i gefnogi twf poblogaeth	Mae'r ddinas yn cadw cyflenwad da o 6 blynedd o dai gydag adeiladu tai newydd sylweddol ar y gweill ar draws y ddinas. Bydd dileu Tollau Pont Hafren yn cynyddu'r galw a hefyd yn rhoi pwysau ar adeiladwyr tai i ddod â thai a gwblhawyd ymlaen, gyda Chasnewydd wedi ei nodi fel y farchnad eiddo sy'n tyfu gyflymaf ym Mhrydain yn gynnar yn 2018. Mae cynlluniau presennol yn 123-129 Commercial Street, 4-5 Market Market a Griffin Island naill ai wedi'u cwblhau neu yn mynd rhagddynt, gan gynyddu'r cyflenwad o dai o safon ar draws ystod o ddeiliadaethau sydd ar gael yng nghanol y ddinas.
Cyflenwi strategaeth ddigidol gyda chysylltedd gwell yn y	Cais Rhwydwaith Ffeibr Llawn Lleol llwyddiannus i Gasnewydd, Sir Fynwy, Torfaen, Blaenau Gwent a fydd yn dod â mwy o gysylltedd

Camau	Cynnydd
ddinas gyda mynediad i ddinasyddion, partneriaid a busnesau	cyflymach i'r ardal. Hybu cynllun Talebau Gigabit i fusnesau.
Adnabod a hyrwyddo pwysigrwydd cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus cyflym, dibynadwy ac aml ar gyfer cysylltedd y ddinas	Mae uwchraddiadau i'r system RTPI yng ngorsaf Bysiau Dinas Casnewydd yn cael eu gweithredu ar gyfer gwybodaeth trafndiaeth gyhoeddus, er mwyn hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau bws o gwmpas y ddinas ac i ddefnyddwyr gynllunio eu teithiau. Mae ymgynghoriad yn digwydd gyda Thrafnidiaeth Cymru ar welliannau i'r seilwaith a'r cynllunio llwybr gorau posibl ar gyfer gwelliannau cysylltedd yn y dyfodol.
Cynnal ein ffocws ar adfywio canol y ddinas i ddod yn un o ddinasoedd gorau'r DU	Mae adfywio Canol y Ddinas yn symud ymlaen yn gyflym fel y gwelir yn y cyhoeddiadau diweddar ynghylch nifer o adeiladau allweddol. Mae adnewyddu Twr y Siartwyr ar gamau cychwynnol ac mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â datblygwr sy'n ceisio ailddatblygu'r farchnad dan do. Llwyddodd y Cyngor i sicrhau cyllid cyflenwi cam II ar gyfer adnewyddu Arcêd y Farchnad. Mae cynlluniau presennol yn 123-129 Commercial Street, 4-5 Market Market ac Griffin Island naill ai wedi'u cwblhau neu yn mynd rhagddynt, gan gynyddu'r cyflenwad o dai o safon ar draws ystod o ddeiliadaethau sydd ar gael yng nghanol y ddinas.
Gwneud y mwyaf o gyfleoedd amgylcheddol	Mae datblygu cynlluniau i leihau ein hallryadau carbon wedi datblygu'n dda. Cynhaliodd y Cyngor astudiaethau effeithlonrwydd ynni adnewyddadwy ac adeiladu, ac maent bellach yn dechrau ar raglen effeithlonrwydd ynni adeiladu ac ynni adnewyddadwy mawr. Mae'r cyngor hefyd wedi gweithredu cerbydau trydan, seilwaith gwefru cyhoeddus ac mae'n gweithio tuag at gynllun i gefnogi cerbydau trydan a theithio llesol ymhellach.
Gweithio gyda chymunedau ac ysgolion ar ystod o faterion yn ymwneud â chefn gwlad, bioamrywiaeth ac ailgylchu	2 grŵp gwirfoddolwyr wythnosol. Gwirfoddolwyr Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Gwirfoddolwyr Cadwraeth (~ 90 diwrnod). Cynhaliwyd dros 40 o sesiynau / digwyddiadau ysgolion awyr agored / coedwig yn ystod 2017/18.
Cynyddu ailgylchu cartrefi a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi	<p>Rydym wedi parhau i fonitro'r tunelli ailgylchu a gasglwyd - yn 17/18 aeth y tunelli ailgylchu a gesglir o'r palmant dros 17,000 tonnall fetrig am y tro cyntaf, gyda chynnydd cyffredinol o 2.7% o'i gymharu â'r llynedd.</p> <p>Hefyd, bu arbrawf i ddarparu opsiynau ailgylchu i breswylwyr sy'n byw yng nghanol y ddinas, trwy gasglu bagiau; mae'r arbrawf, a ddechreuwyd ddiwedd 17/18, wedi cael ymateb cadarnhaol iawn gan drigolion hyd yn hyn.</p> <p>Parha gwyro o safleoedd tirlenwi i Droï Gwastraff yn Ynni yn unol â'r cynllun; 6.3% oedd y perfformiad am y flwyddyn, sy'n fwy na'r targed o 7%.</p> <p>Rydym hefyd yn gweithio ar Strategaeth Wastraff newydd - anfonwyd</p>

Camau	Cynnydd
	<p>adroddiad gydag argymhellion y Pwyllgor Craffu at yr Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Stryd i'w ystyried; ar yr un pryd, cyflwynwyd opsiynau i'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) cyn cynnig yr Aelod Cabinet. Cymerir camau pellach ar ddechrau 2018/19 fel y gellir cymeradwyo'r Strategaeth yn ffurfiol cyn gynted ag y bo modd.</p>
<p>Diogelu a hyrwyddo asedau adeiledig a naturiol lleol a threftadaeth ddiwylliannol</p>	<p>Cais Cam 1 llwyddiannus i gronfa Treftadaeth y Loteri am grant mawr i Atgyweirio, Adfer a dehongli'r Bont Gludo.</p> <p>Mae gan Gyngor Dinas Casnewydd ystod o daflenni a ddefnyddir i hyrwyddo ei asedau naturiol, mae'r rhain ar gael mewn digwyddiadau.</p> <p>Gweithio mewn partneriaeth â'r Bartneriaeth Lefelau Byw.</p>
<p>Cefnogi cydymffurfiaeth o fewn busnesau cyfrifol ac ymchwilio i fasnachwyr twyllodrus i gynnal amgylchedd masnachu teg a diogel</p>	<p>Ailstrwythurwyd y gwasanaeth; effaith hyn fydd cefnogi gwell cydymffurfiaid busnes ac ymchwiliadau masnachwyr twyllodrus. Mae'r timau wedi'u halinio â'r amcanion hyn yn eu craidd.</p> <p>Parha'r timau i gynnal ymchwiliadau cymhleth a 'normal'. Mae swyddogion wedi gweithio ar ymchwiliadau sy'n cwmpasu'r mathau canlynol o fasnachu twyllodrus:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwerthu cynhyrchion ffug • Masnachu heb drwydded • Iechyd a lles anifeiliaid • Gwerthu cynhyrchion trydanol peryglus • Gwerthu bwyd peryglus a disgrifiwyd yn ffug • Masnachwyr carreg drws yn twyllo defnyddwyr sy'n agored i niwed • Manwerthwyr sy'n twyllo cwsmeriaid • Gwerthwyr tybaco anghyfreithlon <p>Arweiniodd nifer o'r achosion hyn at gamau ffurfiol; ceir enghreifftiau isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Erlynwyd dau fasnachwr mewn nwyddau ffug ym mis Ebrill 2017; dedfrydwyd un i 6 mis o garchar i'w weithredu ar unwaith; tra bod y llall wedi'i ddedfrydu i garchar 6 mis i'w ohirio am 2 flynedd a chwblhau 200 awr o wasanaeth cymunedol. Cytunwyd ar werth troseddoldeb o £155,000. [Tîm Ymchwiliadau Arbennig] • Gwerthodd dau fasnachwr mewn siop stryd fawr ffrogiau priodas a ddisgrifiwyd yn ffug, ac roeddent yn gyfrifol am 129 o gwynion; gwerth y twyll a roddwyd i'r llys oedd £22,000; cawsant eu dedfrydu i ddedfrydau wedi'u gohirio am 12 mis. [Tîm Ymchwiliadau Arbennig] <p>Parhaodd swyddogion i archwilio busnesau bwyd risg uchel fel y'u diffinnir gan God Ymarfer Cyfraith Bwyd. Arolygwyd 100% o adeiladau gradd A a B (y risg uchaf) (5 a 75 o arolygiadau yn y drefn honno) a</p>

Camau	Cynnydd
	<p>chafodd 88% o adeiladau gradd C eu harchwilio (261 o arolygiadau). Roedd y perfformiad hwn yn fwy na'r hyn a ymrwymwyd i'n Cynllun Gwasanaeth. Yn ogystal, defnyddiwyd arian gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i archwilio 48 o eiddo gradd D na chawsant eu harchwilio ers peth amser. Mae arolygiadau'n rhoi'r cyfle i gefnogi busnesau dibynadwy a chymryd camau gorfodaeth priodol yn erbyn y rhai sy'n peri risg i iechyd y cwsmer.</p> <p>Ymgwymerodd swyddogion ag ymyriadau Iechyd a Diogelwch yn seiliedig ar broiectau megis diogelwch nwy (coginio) mewn adeiladau arlwyo a diogelwch nwy diodydd. Canlyniad un ymyrraeth oedd cymryd camau cyfreithiol yn erbyn y busnes am beidio â chydymffurfio â hysbysiad a oedd yn mynnu gwelliannau.</p> <p>Gwnaed gwaith cydymffurfio sylweddol yn delio â'r fasnach drwyddedig; yn arbennig mewn perthynas ag economi hwyr y nos a chydymffurfio ag amodau tacsï. Arweiniodd hyn at adolygiadau trwydded, erlyniadau a gwaith partneriaeth gyda'r sector. Gwnaed 291 o arolygiadau graddio risg mewn eiddo trwyddedig; roedd hyn yn cynnwys archwiliadau o bob safle risg uchel yng Nghanol y Ddinas. Cafwyd 27 o faterion arwyddocaol yn adeiladau canol y ddinas a chawsant eu datrys i gyd. Cwblhaodd y swyddogion archwiliadau hwyr y nos a chymerwyd rhan mewn 11 gweithrediad gyda Heddlu Gwent ac asiantaethau eraill er mwyn helpu i hyrwyddo bywyd nos diogel a bywiog yng Nghasnewydd. Prosesodd y swyddogion 3,000 o geisiadau yn ystod y flwyddyn. [Tîm Trwyddedu]</p> <p>Mae Gweithredwyr Llogi Preifat sy'n mynd y tu hwnt i ofynion statudol a chyngor bellach yn cael eu gwobrwo am eu hymdrechion trwy gynllun gwobr efydd, arian ac aur, gan wobrwyo'r busnesau cyfrifol hynny. Archwiliwyd 338 o gerbydau Llogi a Cherbydau Hacni gan y swyddogion i sicrhau bod gyrwyr yn drwyddedig a bod cerbydau yn cwrdd â safonau. [Tîm Trwyddedu]</p> <p>Mae swyddogion ar draws y timau yn parhau i ddefnyddio'r Ddeddf Elw Troseddau fel offeryn ymchwilio a ffordd o ddod ag incwm i'r cyngor. Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd gorchymyn i un masnachwr tybaco twyllodrus dalu £255,000 yn ôl yn dilyn gwrandawriad atafaelu a rhoddwyd gorchymyn i adeiladwr twyllodrus ddychwelyd £200,000 [Tîm Chwilio Sgamiau a Thîm Ymchwiliadau Arbennig]</p> <p>Gweithreda'r cyngor gynllun Prynu Gyda Hyder, cynllun sicrwydd masnachwr a gefnogir gan dros 50 o awdurdodau Safonau Masnach ledled y DU. Mae pob busnes sy'n aelod o'r cynllun yn cael ei archwilio gan Safonau Masnach, felly mae defnyddwyr â mwy o hyder i ymgysylltu â'r busnes. Yn ystod 2017/18 roedd gan yr Adran 7 o fusnesau cymeradwy yn y cynllun. 1 garddwr, 1 cwmni lifft grisiau a 5</p>

Camau	Cynnydd
	<p>busnes gwerthu cerbydau. [Tîm Gwarchod Defnyddwyr]</p> <p>Arweiniodd Ymgyrch Cadw Nwyddau Ffug o Gasnewydd at fwy o ymwybyddiaeth o beryglon nwyddau ffug. Ymunodd 25 o fusnesau â'r cynllun; rhyddhawyd llawer o negeseuon atal; ac ymgeisiodd 240 o ddisgyblion mewn cystadleuaeth bosteri. [Tîm Gwarchod Defnyddwyr]</p> <p>Cymerodd swyddogion ran mewn nifer o Ddiwrnodau Gweithredu amlasiantaethol; mae canlyniadau'r diwrnodau yn cynnwys gorfodaeth, hysbysiadau cosb, atafaeliadau, cyngor arolygu a gwiriadau cydymffurfiaid mewn busnesau fel casglwyr metel sgrap, manwerthwyr ac adeiladwyr. [Tîm Trwyddedu a Thîm Gwarchod Defnyddwyr]</p> <p>Mae swyddogion yn monitro mewnfurion porthiant anifeiliaid i Ddociau Casnewydd. Aseswyd 6 llwyth; canfuwyd bod gan un ohonynt lefelau uchel o docsin - cymerwyd camau adferol. [Tîm Diwydiannol ac Iechyd Anifeiliaid]</p> <p>Adolygwyd y Polisi Caniatâd Masnachu Stryd i wneud cynnal digwyddiadau dros dro fel yr Ŵyl Fwyd yn fwy hyfyw yn economaidd i drefnwyr. [Tîm Trwyddedu]</p>

4. Datblygu ac adfywio'r Ddinas – Da – Gwyrdd

Amcan: Mae'r amcan yn mynd law yn llaw â chyflenwi Strategaeth Twf Economaidd y Cyngor, sef 'Pobl, Lleoedd, Ffyniant', a fydd yn parhau i yrru Casnewydd ymlaen fel 'ardal o newid gweladwy, gyda dyheadau uchel, cyflawniad uchel a ffyniant a rennir' yn ogystal â chyfrannu at Nodau Llesiant Cymru o 'Gymru ffyniannus', 'Cymru gydnerth', 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang' a 'Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

Mae'r amcan hwn yn cael ei raddio yn wyrdd - da; mae'r holl gamau gweithredu ar y trywydd iawn, cynnydd da wedi ei wneud drwy'r flwyddyn.

7. Cynyddu ailgylchu – Da - Gwyrdd

Amcan: Sicrhau bod Casnewydd yn cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru i gynyddu ailgylchu a'r targedau Ewropeaidd ar gyfer dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi, rhaid ymchwilio i bob cyfle ailgylchu a dargyfeirio sydd ar gael i'r ddinas a lle bo hynny'n berthnasol, eu gweithredu. Bydd gwyro gwastraff trefol gweddilliol o safleoedd tirlenwi yn cael ei gynnwys i raddau helaeth gan weithrediad y Project Gwyrdd a Chwm-y-Fory. Felly, bydd yr amcan hwn yn canolbwyntio i raddau helaeth ar annog busnesau a thrigolion y ddinas i ailgylchu mwy, a fydd yn mwyafu'r gwastraff sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddostrarthu a'i drin fel gwastraff gweddilliol. Mae'r amcan hwn yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cymru o 'Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang', 'Cymru ffyniannus' a 'Chymru gydnerth'.

Mae'r amcan hwn yn cael ei raddio yn wyrdd - da; mae'r holl gamau gweithredu ar y trywydd iawn, cynnydd da wedi ei wneud drwy'r flwyddyn.

Astudiaeth Achos: Adfywio Canol y Ddinas

Mae adfywiad y ddinas yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Gasnewydd ac mae'n cyfrannu at lawer o nodau

llesiant. Parahodd Casnewydd i wneud cynnydd sylweddol o ganlyniad i'w statws cynyddol fel lle i fyw, gweithio a buddsoddi. Adlewyrchir y positifrwydd hwn yn y penderfyniad i adolygu a diwygio'r Prif Gynllun Canol y Ddinas presennol yn 2017/18, yn dilyn cwblhau'r Friars Walk a'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid llwyddiannus. Symudodd yr Uwchgynllun drafft oddi wrth ddull parth/defnydd traddodiadol i nodi nifer o 'Ardaloedd o Ffocws' catalytig allweddol a allai yrru buddsoddiad a datblygiad yn ystod oes y cynllun. Mae'r Meysydd Ffocws hyn wedi eu rhagosod ar nifer o broiectau sydd â'r potensial i weithredu fel cyflymwyr economaidd i Ganol y Ddinas ac roedd ymdrechion trwy 2017/18 yn canolbwyntio ar sicrhau'r cynlluniau datblygu angor hyn. Gan fod crebachu manwerthu parhaus yn golygu bod sawl eiddo yn wag, mae'r proiectau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar aildefnyddio eiddo gwag allweddol ac eiddo a dan-ddefnyddir er mwyn annog defnyddiau amrywiol sy'n gallu manteisio'n well ar y cyfleoedd economaidd ehangach a gyflwynir i'r ddinas o ganlyniad i welliannau seilwaith allweddol megis dileu tollau Pont Hafren, trydaneiddio prif lein de Cymru, a datblygu Canolfan Confensiwn Ryngwladol Cymru.

Mae'r proiectau catalytig hyn yn cynnwys datblygiadau masnachol a phreswyl. Yn 2017/18 gwelwyd y Cyngor yn trefnu i alluogi ailddatblygu'r Twr Siartwyr 16 llawr i ddod â gwesty, cyfleusterau cynadledda a gofod swyddfa a manwerthu newydd i ganol y ddinas. Bydd y cyfleuster allweddol hwn yn golygu bod yr adeilad talaf yn cael ei adfywio, a hefyd bydd yn cyflenwi pecyn buddsoddi rhanbarthol-bwysig, gan ddod â channoedd o swyddi yn y sectorau adeiladu a lletygarwch yn ei sgil.

Roedd Casnewydd hefyd yn llwyddiannus wrth sicrhau Cyllid Treftadaeth y Loteri i adnewyddu Arcêd y Farchnad hanesyddol, gydag uchelgais hirdymor o'i defnyddio i ddarparu lle deori a chychwyn i entrepreneuriaid. Mae sicrhau treftadaeth adeiledig unigryw y ddinas, ac ymgysylltu â gofod mewn ffyrdd newydd tra'n sicrhau bod arwyddocâd diwylliannol a chymdeithasol y strwythurau hyn yn cael ei ddathlu, yn un o'r heriau a'r cyfleoedd allweddol i Gasnewydd, o gofio ei chyfoeth o strwythurau hanesyddol. Bydd sicrhau'r buddsoddiad hwn nid yn unig yn cefnogi bywiogrwydd canol y ddinas, ond yn sicrhau bod y strwythur Rhestredig gradd II adfeiliedig yn cael ei achub.

Parha tai o safon ar draws ystod o ddeiliadaethau i fod yn ffocws i ailddatblygu, yn cael ei arwain gan y cynllun sylweddol dan arweiniad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddymchwel cyfres o anheddau yn 123-129 Commercial Street er mwyn creu adeilad fflatiau 38-cartref pwrpasol i bobl dros 55 oed. Symudodd cynlluniau ychwanegol sy'n darparu cartrefi newydd yn y sectorau rhentu fforddiadwy a phreifat gam yn nes at gael eu cwblhau dros y flwyddyn, gyda diddordeb pellach yn cael ei ysgogi i greu eiddo marchnad pellach hefyd.

Amcan Llesiant 3: Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn

Mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at nodau llesiant: Cymru iachach, Cymru gydnherth, Cymru fwy cyfartal, Cymru ffyniannus, Cymru o gymunedau cydlynol, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae pa mor iach, annibynnol a gwydn yw pobl yn cael effaith ehangach ar bob agwedd arall ar eu bywyd. Dylanwada'r amcan hwn ar y gallu i weithio, mynychu addysg, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a chyfrannu at eu cymunedau. Dyna pam mae'r amcan hwn yn hanfodol i'r holl Nodau Llesiant. Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol Y Gymru a Garem yn nodi bod angen i blant gael y dechrau gorau mewn bywyd o flynyddoedd cynnar iawn, ac mae llesiant pawb yn dibynnu ar leihau anghydraddoldeb a rhoi mwy o werth ar amrywiaeth. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd atal ar oed cynnar i wella a chynnal llesiant ac i helpu i ymdrin ag anghydraddoldebau.

Bydd yr amcan llesiant hwn yn dda i Gasnewydd oherwydd:

Tymor Hir – Mae Disgwyliad Bywyd a Disgwyliad Bywyd Iach yn cynyddu yng Nghasnewydd, ond mae anghydraddoldebau iechyd arwyddocaol yn parhau rhwng y rhai sy'n byw mewn ardaloedd lle mae'r lefelau amddifadedd uchaf o gymharu â'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd lle mae amddifadedd is. Dengys y data disgwyliad oes diweddaraf bod bwlch anghydraddoldeb o 9.9 mlynedd i ddynion a 7.2 mlynedd i fenywod. O ran disgwyliad oes iach, mae'r bwlch anghydraddoldeb yn 18.2 mlynedd i ddynion ac 20.1 i fenywod. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, mae'n bwysig galluogi pobl i fod mor iach â phosib nawr ac i'r dyfodol a darparu cefnogaeth ar hyd y daith, pan fo hynny'n briodol. Bydd hyn yn lleihau'r ddibyniaeth a'r pwysau ar wasanaethau aciwt yn nes ymlaen.

Atal – Mae defnyddio dull ataliol o ran iechyd yn hollbwysig i alluogi pobl i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain ac atal salwch. Awgryma tystiolaeth bod pobl sy'n cadw at ymddygiad iach o fyw yn llai tebygol o ddatblygu clefydau sy'n bygwth bywyd, megis canser, clefyd cardiofasgwlaidd a dementia.

Integreiddio – Mae'r amcan hwn yn cefnogi'r Nod Llesiant Cymru Iachach, ond hefyd yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r lleill. Mae llesiant corfforol a meddyliol da yn galluogi pobl i gymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar fywyd ar draws nodau llesiant (economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol).

Cydweithio – Mae cydweithio gyda phartneriaid megis Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r 3ydd sector yn hanfodol er mwyn cyflawni'r amcan hwn.

Ymgysylltiad – Awgryma adborth o weithgarwch ymgysylltu y dylid rhoi mwy o gefnogaeth i grwpiau bregus neu rai dan anfantais, gan gynnwys pobl ag anableddau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r hyn yr ydym wedi'i wneud hyd yma, ac mae'r astudiaeth achos isod yn enghraifft o sut mae pethau wedi gwella yn y maes hwn:

Camau	Cynnydd
Cefnogi pobl i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau	<p>Gweithredwyd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn llwyddiannus, a fydd yn helpu i sefydlu llwybr ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol oedolion ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.</p> <p>Gweithredwyd offeryn asesu integredig sy'n gwbl weithredol a chafodd prosesau cydymffurfio â'r Ddeddf eu hymgorffori yn WCCIS.</p> <p>Mae Gofal Ychwanegol yn y broses o gael ei ailgomisiynu; mae'r fanyleb a'r contract yn y broses o gael eu cwblhau i baratoi ar gyfer tendro.</p> <p>Bydd y gwasanaethau Byw â Chymorth Mewnol yn cael eu lleihau o 4 tŷ i 2 erbyn 2020. Mae'r tîm project yn cwmpasu'r gwaith ac yn chwilio am leoliadau amgen ar gyfer tenantiaid presennol. Nododd gwaith cydweithredol gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a darparwyr annibynnol gyfleoedd i symud ymlaen.</p> <p>Perfformiodd gosod addasiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) yn dda yn</p>

Camau	Cynnydd
	<p>erbyn y targed, ond gall argymhellion a newidiadau yn dilyn adolygiad gwasanaeth arwain at rai newidiadau i'r gwasanaeth a chynnydd posibl mewn diwrnodau cyfartalog ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.</p> <p>Bydd y tendr ar gyfer y Rhestr Contractwyr Cymeradwy newydd (ALC) yn cael ei gyhoeddi erbyn Mehefin 2018. Mae gwaith yn parhau i ddrafftio Polisi Addasiadau Tai Sector Preifat.</p> <p>Comisiynu gwasanaeth cymorth symudol ar draws y Ddinas ar gyfer pobl 55+ oed a ariennir gan y Rhaglen Cefnogi Pobl i gynorthwyo pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain ar draws pob deiliadaeth neu gael mynediad i leoliadau tai / llety addas: Dyddiad dechrau disgwylidig y gwasanaeth newydd yw 3 Rhagfyr 2018.</p> <p>Darparu cymorth tai ychwanegol i bump o bobl gydag ystod o anableddau dysgu sy'n paratoi i symud i lety annibynnol hunangynhwysol ym mis Hydref 2018. (Tŷ Dewi Sant).</p> <p>Gwaith amlasiantaethol ar broject Tai yn Gyntaf gyda darparu tai dwys a chymorth arall i berson ag anghenion cymhleth iawn a ffordd o fyw ar y stryd.</p>
<p>Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a chefnogi atal, ymyrraeth gynnar a hunan-reoli salwch</p>	<p>Anela'r Cynllun Eiddo sy'n Croesawu Bwydo ar y Fron at wneud adeiladau yn fwy croesawgar a chefnogol i deuluoedd sy'n bwydo ar y fron, yn ogystal â sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol eu bod yn gallu bwydo'u babanod ar y fron mewn unrhyw eiddo cyhoeddus. Ariannwyd hyn trwy'r Cynllun Integredig Sengl, gyda chymorth Partneriaeth Casnewydd yn Un. Lansiwyd y cynllun yn swyddogol ym Mawrth 2018 ac roedd y cyhoeddusrwydd a'r adborth yn gadarnhaol.</p> <p>Ers y lansiad, mynegodd llawer o adeiladau eraill ddi-ddordeb mewn cael eu hychwanegu at y gofrestr. Bydd y gwaith ar y cynllun Croesawu Bwydo ar y Fron yn parhau gyda'r nod iddo dyfu ac ymgysylltu â chwmnïau mwy yn y Ddinas.</p> <p>Mae'r Rhaglen Phunky Foods (PFP) yn rhaglen blynnyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd, sy'n cynnwys gweithgareddau cwricwlaidd ffordd o fyw iach. Nod y rhaglen yw cynorthwyo ysgolion i fodloni gofynion cwricwlwm ffordd o fyw iach trwy gyflwyno negeseuon iechyd allweddol a chyson drwy'r meysydd cwricwlwm/ pwnc presennol neu trwy'r clwb PhunkyFoods, i gefnogi fframweithiau arolygu, cyflawni safonau Ysgolion Iach Lleol a chenedlaethol a threfnu eu y cwricwlwm i gynnwys mwy o ddeunyddiau ffordd o fyw iach.</p> <p>Yn y flwyddyn 2017/18, roedd 240 o blant yn cymryd rhan yn PFP ac os yw arian yn caniatáu, bydd Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau i weithio gydag Ysgolion ar draws y ddinas i ddatblygu'r rhaglen ymhellach.</p> <p>Mae ymgyrch ASH Cymru 'Giatiau Di-Fwg' yn cynnwys gwaharddiad gwirfoddol ynghyd ag arwyddion ac ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus. Nod</p>

Camau	Cynnydd
	<p>yr ymgyrch yw atal pobl rhag ysmegu wrth giatiau'r ysgol. Mae ASH Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i ddatblygu ymhellach eu polisiau di-fwg a fydd yn cynyddu'r nifer o 'leoedd di-fwg' ac yn diogelu pobl ifanc rhag effeithiau niweidiol mwg ail-law. Trwy gyflwyno'r gwaharddiad gwirfoddol hwn wrth giatiau'r ysgol, mae pobl ifanc yn llai agored i ddylanwad ysmegu.</p> <p>Hyd yn hyn mae pob ysgol yng Nghasnewydd wedi ymuno â Giatiau di-fwg.</p> <p>Atal Hunanladdiad</p> <p>Mabwysiadwyd dull amlasiantaethol o fewn Casnewydd i ddarparu arwyddion ar 6 lleoliad a nodwyd ar y pontydd o gwmpas Casnewydd. Sicrhawyd y cytundeb am o leiaf 3 arwydd ar bob ochr pob bont (wedi eu lleoli yn y ddau ben ac yn y canol) i'r pontydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pont y Dref (Clarence Place) • Pont-droed Dinas Casnewydd (Taith y Mileniwm) • Pont George Street • Pont SDR • Pont Caerllion <p>Ceisiwyd caniatâd gan Asiant Cefnffyrdd LICC ar gyfer pont drosffordd yr M4 yn High Cross. Mae hyn yn cyfateb i 42 o arwyddion mewn 6 lleoliad. Hefyd archwilir i'r posibilrwydd o arddangos arwyddion (posteri) mewn lifftiau / grisiau yn y maes parcio. Nodwyd manau hunanladdiad blaenorol a bydd manylion cyswllt y ward iechyd meddwl aciwt agosaf ar gyfer person mewn argyfwng yn cael eu harddangos.</p> <p>Ni fodlonwyd y targed i 36 o ddiffoddwyr tân fynychu Hyfforddiant Siarad Diogel a ASSIST. Bydd yr hyfforddiant hwn yn digwydd yn 2018-19.</p> <p>Cynhadledd Iechyd Meddwl</p> <p>Cynhaliwyd cynhadledd iechyd meddwl a llesiant ar gyfer athrawon ysgolion uwchradd ym mis Mawrth 2018: "Cynhadledd Ysgolion Casnewydd: Cefnogi Llesiant Staff, disgyblion a'r Dull Ysgol Gyfan". Mynychodd nifer o siaradwyr ardderchog, yn cynnwys: Dr Dave Williams, Cadeirydd Plant yng Nghymru a Chyfarwyddwr Rhanbarthol Teuluoedd a Therapiau, BIPAB, Dr James Cording, Seicolegydd Addysg a Caroline Friend, Arweinydd Gwella Llesiant Emosiynol yn Ysgolion Casnewydd, Dr Jillian Gray, Cynorthwy-ydd Ymchwil, DECIPHer, Rob Williams, Cyfarwyddwr Polisi Cymdeithas Prifathrawon Cymru Cymru, Tim Anfield, Mindful Families, Mark Campion, Swyddog Arweiniol Estyn dros Iechyd a Llesiant a Lynn Neagle Aelod Cynulliad a Chadeirydd Pwyllgor Senedd Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd, a gauodd y gynhadledd.</p> <p>Roedd dau ddisgybl o Ysgol Bassaleg a gymerodd ran yn y drafodaeth iechyd meddwl yn yr ysgol uwchradd ddiweddar yng Nghasnewydd, fel rhan o Drafodaethau Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, un ohonynt wedi ennill y gystadleuaeth siaradwyr unigol gorau, gipolwg o'u dadl ar "A yw'r ysgol yn</p>

Camau	Cynnydd
	<p>ddrwyg i'ch iechyd chi?"</p> <p>Cafwyd presenoldeb da yn y gynhadledd hon a chafodd dderbyniad da. Bydd adroddiad briffio yn cael ei gynhyrchu ym mis Mai 2018 gydag argymhellion ar gyfer lledaenu camau yn y dyfodol.</p> <p>Hefyd cafodd dau gwrs hyfforddi ymwybyddiaeth ofalgar i athrawon eu hariannu. Dyrannwyd lleoedd i 20 o athrawon ar bob cwrs, ac mae'r cyrsiau i fod i ddechrau ym mis Mai 2018.</p>
<p>Cefnogi plant i aros yn ddiogel gyda'u teuluoedd</p>	<p>Ar draws y Gwasanaethau Plant, mae pob tîm yn gweithio i gefnogi plant i aros gyda'u teuluoedd. Yn gyntaf a phwysicaf, cefnogir teuluoedd er mwyn i blant gael eu cadw'n ddiogel a chael gofal priodol gyda'u rhieni a'u brodyr a chwiorydd. Mae'r timau Ataliadau a Chefnogi Teuluoedd yn cynnig lluo o ymyriadau a rhaglenni i gynnig ystod o gefnogaeth o Raglenni Rhianta i ymyrraeth arbenigol sy'n canolbwyntio ar gam-drin domestig i drefniadau teuluol i ofal therapiwtig.</p> <p>Mae'r holl dimau yn defnyddio Arwyddion o Ddiogelwch i weithio gyda theuluoedd a phwysleisio'r pethau positif a sicrhau bod teuluoedd yn deall yr hyn sy'n ofynnol. Dros yr haf, cyflwynwyd ymgynghoriadau teulu ychwanegol i roi mwy o bwysau tu ôl i ymyriadau cynharach.</p> <p>Mae'r Bartneriaeth â Barnardo's yn darparu gwasanaethau Ymyl Gofal pan fo risg y bydd plant yn mynd i ofal, a chefnogir adfer fel y bo'n briodol. Mae gwasanaethau'r Bartneriaeth yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd ac maent yn destun i sicrwydd ansawdd fesul achos unigol.</p> <p>Os na ellir gofalu am blant yn ddiogel er gwaethaf y gefnogaeth a roddwyd, yna mae'r tîm maethu ac wedyn y tîm Pathway yn ceisio cefnogi aelodau ehangach o'r teulu gyda Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig i gadw plant yn eu teulu. Dros y flwyddyn nesaf bydd staff yn cael eu hyfforddi i gyflenwi cyfarfodydd teuluol a bydd rhai staff yn cael hyfforddiant mwy arbenigol i hwyluso Cynhadledd Grŵp Teuluol. Bydd hyn yn cryfhau'r dull teulu cyfan ac yn sicrhau y cymerir camau cadarnhaol yn gynnar i gynnal teuluoedd.</p>
<p>Cefnogi pob ysgol i weithio tuag at y Wobr Ansawdd Genedlaethol ar gyfer Ysgolion Iach</p>	<p>Mae'r tîm Ysgolion Iach wedi gweithio gydag ysgolion unigol i baratoi ar gyfer eu lefel hachredu nesaf. Arweiniodd y ffocws cynyddol ar ysgolion sy'n ennill y lefel uchaf o ddyfarniad, Gwobr Ansawdd Cenedlaethol (NQA), at gynydd nodedig mewn ysgolion sy'n llwyddo yn y wobwr hon.</p>
<p>Gweithio tuag at i Gasnewydd ddod yn Ddinas Cyfeillgar i Ddementia gydnabyddedig</p>	<p>Achredwyd Casnewydd fel lle sy'n <i>'gweithio i ddod yn ddementia gyfeillgar'</i> ym mis Mehefin 2015. Yn ystod 2017/18 gwnaed cryn gynydd i godi ymwybyddiaeth o ddementia ac annog sefydliadau i fabwysiadu arferion cyfeillgar i ddementia a chefnogi pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr.</p> <p>Mae'r grŵp gweithredu yn parhau i gyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth Cyfeillion Dementia i sefydliadau partner. Cefnogodd nifer o wahanol sefydliadau Ddinas Gyfeillgar i Dementia (DFC) a derbyniwyd sesiynau</p>

Camau	Cynnydd																				
	<p>ymwybyddiaeth Cyfeillion Dementia a nodi hyrwyddwyr i hyfforddi staff. Sefydliadau a busnesau sy'n cefnogi DFC yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Staff yr Awdurdod Lleol gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, Datblygu Busnes, Addysg Oedolion ac Aelodau Etholedig a Gwasanaeth Llyfrgell Casnewydd • Ysgolion Lleol – YU Gatholig Sant Joseff, Crindau, Glasllwch ac YG Casnewydd • Cymdeithasau Tai Melin, Pobl, Derwen a Linc Cymru • Gofal a Thrwsio Casnewydd • Rygbi Dreigiau • AFC Casnewydd • Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau, gan gynnwys cadetiaid yr Heddlu • Gwasanaeth Tân De Cymru • Staff BIPAB ar draws nifer o leoliadau meddygol gan gynnwys meddygon teulu • Casnewydd Fyw • Tesco • Cymdeithas Adeiladu Sir Fynwy a Natwest • Yr Adran Gwaith a Phensiynau <p>Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn arwain y ffordd o ran codi ymwybyddiaeth o ddementia, gan ddatblygu cefnogaeth i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr, ac annog arferion dementia gyfeillgar ar draws y ddinas. Mewn cydnabyddiaeth, derbyniodd Maer Casnewydd, y Cyngorydd David Fouweather, achrediad ffurfiol 'Dementia City Friendly' gan Gymdeithas Alzheimer, mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn.</p> <table border="1" data-bbox="459 1323 1481 1780"> <thead> <tr> <th data-bbox="459 1323 687 1402">Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth</th> <th data-bbox="687 1323 884 1402">15/16</th> <th data-bbox="884 1323 1080 1402">16/17</th> <th data-bbox="1080 1323 1276 1402">17/18</th> <th data-bbox="1276 1323 1481 1402">CYFANSWM</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td data-bbox="459 1402 687 1529">Cyfeillion Dementia</td> <td data-bbox="687 1402 884 1529">Targed 500 Gwirioneddol 1448</td> <td data-bbox="884 1402 1080 1529">Targed 750 Gwirioneddol 2226</td> <td data-bbox="1080 1402 1276 1529">Targed 1000 Gwirioneddol 1684</td> <td data-bbox="1276 1402 1481 1529">5358</td> </tr> <tr> <td data-bbox="459 1529 687 1655">Sesiynau Cyfeillion Dementia</td> <td data-bbox="687 1529 884 1655">Targed 25 Gwirioneddol 84</td> <td data-bbox="884 1529 1080 1655">Targed 50 Gwirioneddol 135</td> <td data-bbox="1080 1529 1276 1655">Targed 75 Gwirioneddol 83</td> <td data-bbox="1276 1529 1481 1655">302</td> </tr> <tr> <td data-bbox="459 1655 687 1780">Hyrwyddwyr Dementia</td> <td data-bbox="687 1655 884 1780">Targed 10 Gwirioneddol 27</td> <td data-bbox="884 1655 1080 1780">Targed 12 Gwirioneddol 13</td> <td data-bbox="1080 1655 1276 1780">Targed 15 Gwirioneddol 9</td> <td data-bbox="1276 1655 1481 1780">49</td> </tr> </tbody> </table>	Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth	15/16	16/17	17/18	CYFANSWM	Cyfeillion Dementia	Targed 500 Gwirioneddol 1448	Targed 750 Gwirioneddol 2226	Targed 1000 Gwirioneddol 1684	5358	Sesiynau Cyfeillion Dementia	Targed 25 Gwirioneddol 84	Targed 50 Gwirioneddol 135	Targed 75 Gwirioneddol 83	302	Hyrwyddwyr Dementia	Targed 10 Gwirioneddol 27	Targed 12 Gwirioneddol 13	Targed 15 Gwirioneddol 9	49
Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth	15/16	16/17	17/18	CYFANSWM																	
Cyfeillion Dementia	Targed 500 Gwirioneddol 1448	Targed 750 Gwirioneddol 2226	Targed 1000 Gwirioneddol 1684	5358																	
Sesiynau Cyfeillion Dementia	Targed 25 Gwirioneddol 84	Targed 50 Gwirioneddol 135	Targed 75 Gwirioneddol 83	302																	
Hyrwyddwyr Dementia	Targed 10 Gwirioneddol 27	Targed 12 Gwirioneddol 13	Targed 15 Gwirioneddol 9	49																	
Gwella cyfleoedd ar gyfer Teithio Llesol	<p>Mae data wedi dangos cynnydd enfawr wrth i ni gwblhau llwybrau teithio llesol a dechrau derbyn data gan y cyfrifwyr beicio a cherdded cyfun ar lwybrau. Mesurir gwelliannau gwirioneddol yn y blynyddoedd i ddod.</p> <p>Mae CDC wedi ymateb i reolaeth datblygu ac yn darparu argymhellion.</p>																				
Rheoleiddio anheddau	Derbynia'r swyddogion wybodaeth yn fisol gan y Tîm Sgarniau Cenedlaethol																				

Camau	Cynnydd
<p>preswyl i sicrhau darparu cartrefi diogel</p>	<p>ynghylch trigolion Casnewydd a allai fod yn agored i ymateb i bost sgamio. Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar restrau o enwau a gafwyd trwy gyrchoedd ar bobl a busnesau sy'n cynnal gweithrediadau sgamio ac o bostio ymatebol gwirioneddol (yn aml yn cynnwys arian parod neu sieciau). Cyfarfu swyddogion â 55 o drigolion agored i niwed yn ystod y flwyddyn. Pan ddarganfyddir dioddefwr ailadroddus sy'n arbennig o agored i niwed, bydd swyddogion yn gweithio gyda'r person hwnnw gyda'r diben o wella diogelwch i atal colled ariannol pellach. [Tîm Gwarchod Defnyddwyr]</p> <p>Parhaodd y Cynllun Trwyddedu Tai Amfeddiannaeth (HMO) i gael ei weithredu gan swyddogion i reoleiddio safonau eiddo a rheoli. Mae nifer yr HMOs trwyddedig yn parhau i fod yn sylweddol (dros 430) ond cododd y nifer yn ystod 17/18 oherwydd newidiadau yn y farchnad rentu leol a pholisiau treth Llywodraeth y DU.</p> <p>Ymatebodd swyddogion i 1,440 o geisiadau am wasanaethau yn ymwneud â materion tai, sy'n cynnwys y rheini gan denantiaid eiddo nad ydynt yn eiddo Amfeddiannaeth ac eiddo Landlord Cymdeithasol Cofrestredig.</p> <p>Buddsoddwyd adnoddau sylweddol hefyd i reoleiddio landlordiaid ac asiantau rheoli eiddo trwy Rhentu Doeth Cymru, y cynllun cofrestru a thrwyddedu a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a weithredir gan Gyngor Caerdydd ar ran pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mynna Rhentu Doeth Cymru gyfraniad sylweddol gan swyddogion lleol, ond darperir cyllid gan Rhentu Doeth Cymru a Llywodraeth Cymru i gefnogi'r Cyngor. Mae Rhentu Doeth Cymru yn rhoi cyfle i wella safonau rheoli ar gyfer eiddo preswyl ar rent.</p> <p>Er mwyn ceisio gwella'r amgylchedd lleol, bu swyddogion yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Stryd i adolygu amodau trwyddedu HMOs mewn perthynas â chyfleusterau storio gwastraff ac nid yw'r rhain wedi'u cynnwys nawr ar yr holl drwyddedau newydd a gyhoeddir.</p>
<p>Gweithio tuag at well ansawdd aer</p>	<p>Gweithredu Polisi Tacsî newydd gyda Pholisi Amgylcheddol wedi'i fewnosod. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl geisiadau a throsglwyddiadau newydd i safon isafswm allyriadau aer. Mae 58% o'r fflyd presennol o 908 o gerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn cwrdd â neu'n rhagori ar y safonau allyriadau gwell. Bydd y ganran hon yn gwella gan y bydd angen i bob cais newydd gynnwys cerbyd sy'n rhagori ar y safonau allyriadau gwell. [Tîm Trwyddedu]</p> <p>Gweithiodd swyddog yn agos gyda chydweithwyr Rheoli Datblygu i ysgrifennu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ansawdd Aer i helpu sicrhau cysondeb yn y ffordd yr ymdrinnir â safon aer drwy'r system Gynllunio. Mabwysiadwyd hyn ym mis Chwefror 2018.</p> <p>Yn dilyn monitro ansawdd aer, gwnaed gwaith i ddiweddarau'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) yn ardal y Cyngor. Ffurfiwyd 4 AQMA newydd, addaswyd 3 ardal bresennol a diddymwyd 1.</p>

Camau	Cynnydd
	<p>Mae Gwasanaethau Rheoleiddio yn gweithredu gorsaf fonitro ansawdd aer awtomatig, sydd wedi'i lleoli yn Ysgol Sant Julian, ac mae hyn yn rhan o rwydwaith cenedlaethol y DU. Yn ystod 17/18, amnewidwyd y caban a oedd yn dal yr holl offer gan nad oedd yr hen un bellach yn ddiogel rhag tywydd garw. Roedd y buddsoddiad hwn yn hanfodol er mwyn parhau gyda'r monitro gwerthfawr a wnaed ers blyneddau lawer.</p>
<p>Rheoleiddio busnesau a chefnogi defnyddwyr/trigolion i amddiffyn a gwella iechyd</p>	<p>Gweithredu Polisi Tacsî newydd gyda Hyfforddiant Diogelu Cleifion sy'n Agored i Niwed. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd 317 o yrwyr tacsîs hyfforddiant. [Tîm Trwyddedu]</p> <p>Bu swyddogion yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i ddefnyddio data Damweiniau ac Achosion Brys lleol yn y broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau am drwydded eiddo, adolygiadau a chyfarfodydd cyfryngu. Mewn un achos, roedd y data hwn yn allweddol i wrthod cais i siop ddiodydd drwyddedig fod ar agor mor hwyr â 3am [Tîm Trwyddedu]</p> <p>Cymerodd swyddogion ran yn Ymgyrch Opson ledled Ewrop a chymryd samplau o ychwanegiadau o fusnesau Casnewydd. Methodd bob un y gofynion labelu mewn perthynas â rhybuddion iechyd, cyfarwyddiadau i'w defnyddio a datganiadau cyfansoddiadol ac roedd un yn cynnwys enw cemegol cyffur Dosbarth C anghyfreithlon; dyluniwyd y cyfan i godi cyfradd y galon er mwyn llosgi braster. Yn dilyn yr ymyrraeth gwelwyd y masnachwyr yn tynnu'r ychwanegiadau yn ôl. Fe wnaeth swyddogion hefyd gwblhau Rhaglen Samplu Alergedd Bwyd a oedd yn amlygu cydymffurfiad gwael. Mae'r masnachwyr sydd â'r troseddau mwyaf difrifol wedi ymddangos yn y llys. [Tîm Gwarchod Defnyddwyr]</p> <p>Trwy'r flwyddyn, cynhaliodd swyddogion raglen brynu arbrofol, gan ganolbwyntio ar werthiant alcohol a thybaco i blant. Ceisiodd gwirfoddolwyr o dan 18 oed brynu alcohol (29) tybaco (8) tân gwylt (6) a chyllyll (16) gan arwain at 12 gwerthiant gwirioneddol (5 alcohol, 2 dybaco a 5 cyllyll). Mae hyn yn gyfradd fethiant o 20% [Tîm Gwarchod Defnyddwyr]</p> <p>Arweiniodd un ymyriad gorfodi at atafaelu 10,000 o eitemau. Ymhlith yr eitemau hyn roedd nifer sylweddol o gynhyrchion trydanol. Yn yr ymyriad, profodd archwiliwr diogelwch 38 o samplau; methodd y cyfan y rheoliadau a dosbarthwyd 5 fel rhai peryglus. [Tîm Ymchwiliadau Arbennig]</p>

1. Gwella byw'n annibynnol i bobl hŷn – Derbyniol - Oren

Amcan: Gan weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac asiantaethau partner, datblygwyd Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth (NCN's) sy'n cynnwys pob darparwr cymunedol Gofal Sylfaenol, iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithredu ar draws Gorllewin, Dwyrain a Gogledd y ddinas gyda ffiniau sy'n cyd-fynd yn fras â ffiniau'r Tîm o amgylch y Clwstwr, ac mae ganddynt ystod o flaenoriaethau mabwysiedig i wella iechyd a llesiant y boblogaeth, gyda llawer ohonynt yn cyfrannu at waith thema Iechyd a Llesiant i gyflenwi Cynllun Integredig Sengl Casnewydd. Mae'r amcan hwn yn cyfrannu at bob un o'r 7 Nod Llesiant i Gymru.

Mae'r amcan hwn yn cael ei raddio yn oren – derbyniol; Cafwyd gwelliant positif yn gyffredinol, mae'r holl gamau gweithredu ar y trywydd iawn; Fodd bynnag, mae un mesur 1 coch ac 1 mesur oren.

2. Sicrhau fod gan bobl y gwasanaethau cymdeithasol cywir i ddiwallu eu hanghenion – Rhagorol – Seren Werdd

Amcan: Byddwn yn helpu pobl i nodi a chyflawni'r canlyniadau y maent eisiau eu cyflawni, lle bo'n bosib, gan ddefnyddio eu syniadau a'u dewisiadau gyda phwyslais ar gydgyhyrchu a defnyddio eu syniadau a'u hadnoddau eu hunain. Byddwn yn helpu pobl â gofal a chymorth i fod yn ddiogel tra'n hyrwyddo eu hannibyniaeth a'u rheolaeth ar yr un pryd â chefnogi'r broses o gymryd risg positif trwy ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth o safon uchel. Mae'r amcan hwn yn cyfrannu at bob un o'r 7 Nod Llesiant i Gymru.

Mae'r amcan hwn yn cael ei raddio yn wyrdd - da; mae'r holl gamau gweithredu ar y trywydd iawn, cynnydd da wedi ei wneud drwy'r flwyddyn.

Astudiaeth Achos: Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseff – yr ysgol gyntaf yng Nghymru i gael statws Cyfeillgar i Dementia

Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseff yw'r ysgol gyntaf yng Nghymru i gael statws Cyfeillgar i Dementia yn dilyn ymweliad gan ddarparwr gofal yn y ddinas. Cymerodd disgyblion a staff Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseff ran mewn sesiynau gwybodaeth ryngweithiol a gynhaliwyd gan Ray Morrison, Hyrwyddwr Cyfeillion Dementia a chyfarwyddwr ddarparwr gofal cartref Casnewydd, Bluebird Care. Mae Mr Morrison, sydd eisoes â phrofiad uniongyrchol o ddarparu gofal i bobl yn eu cartrefi eu hunain, wedi gweld cynnydd yn nifer y cwsmeriaid â dementia. Mae'r holl staff yn Bluebird Care wedi'u hyfforddi fel Cyfeillion Dementia fel rhan o ymrwymiad y cwmni i ddarparu gwasanaeth gofal o safon uchel.



Dywedodd Mr Morrison mai ei fab Euan, disgybl yn Ysgol Sant Joseff, a gafodd y syniad o weithio â phlant ysgol, ar ôl rhedeg nifer o sesiynau gyda busnesau yng Nghasnewydd.

Amcan Llesiant 4: Adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy

Mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at nodau llesiant: Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynol, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Noda'r Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol Y Gymru a Garem bod cenedlaethau'r dyfodol angen

cymunedau ffyniannus a adeiladwyd ar ymdeimlad cryf o le; mae llesiant pawb yn dibynnu ar leihau anghydraddoldeb a mwy o werth ar amrywiaeth; bydd dathlu llwyddiant, gwerthfawrogi ein treftadaeth, ein diwylliant a'n hiaith yn cryfhau ein hunaniaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol; ac mae mwy o ymgysylltiad yn y broses ddemocrataidd, llais cryfach i ddinasyddion a chyfranogiad gweithgar wrth wneud penderfyniadau yn hanfodol ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Nododd y Proffil Llesiant Cymunedol (CWP) ostyngiad bach yn y gyfran o siaradwyr Cymraeg ym mhoblogaeth Casnewydd, ac mae'r Strategaeth Iaith Gymraeg ar waith i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac addysg gyfrwng Gymraeg. Nododd y CWP bryderon y cyhoedd am drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a rhywfaint o dystiolaeth o densiynau hiliol/ethnig. Nododd gwaith ymgysylltu CWP hefyd bwysigrwydd a roddir gan y cyhoedd ar asedau diwylliannol e.e. llyfrgelloedd, theatr, manau agored o ran cydlyniant cymunedol a llesiant.

Bydd yr amcan llesiant hwn yn dda i Gasnewydd oherwydd:

Tymor Hir – Nododd ymgysylltiad diweddar fod angen ffocws cynyddol ar gryfhau gwynwch cymunedol ac adeiladu ar eu hasedau yn yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r gweithgareddau perthnasol yn cynnwys hyrwyddo parciau a manau agored, hyrwyddo'r iaith Gymraeg, cynllunio defnydd tir ar gyfer cymunedau cynaliadwy, atal troseddau ieuencid.

Atal - mae gweithgareddau perthnasol yn cynnwys cychwyn tân yn fwriadol, troseddau ieuencid, ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB), rhaglen PREVENT, atal digartrefedd.

Mae'r gwaith diweddar i ymdrin â materion diogelwch cymunedol / cydlyniant yn y Pîl yn cydnabod yr angen am weledigaeth a strategaeth **hirdymor**, sy'n **integreiddio** â'r economi a sgiliau a meysydd gwaith iechyd a llesiant, yn seiliedig ar **atal** ac ymyrryd e.e. troseddau ieuencid. Yn ogystal, bydd angen i'r gwaith hwn **gynnwys** y gymuned wrth nodi a ymdrin â'r materion sy'n peri pryder iddynt. Bydd llwyddiant yn dibynnu ar **gydweithio** cryf rhwng gwasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector a'r gymuned.

Integreiddio/cydweithredu – mae gweithgareddau perthnasol yn cynnwys strategaeth cynllunio defnydd tir, strategaethau cyfannol i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwasanaethau troseddau ieuencid integredig, rhaglenni cydlyniant cymunedol aml-asiantaethol.

Ymgysylltiad – mae prosesau a threfniadau ymgysylltu aml-asiantaeth yn cael eu datblygu. Nododd yr ymgysylltiad ar yr Aseiad Llesiant agwedd gydweithredol newydd a chynyddodd ymglymiad grwpiau anodd eu cyrraedd. Awgrymodd gweithgarwch ymgysylltu bod cynnal rhwydweithiau cymunedol, teuluoedd a gweithgareddau yn bwysig. Daeth gostyngiad mewn troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd allan yn gryf.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r hyn yr ydym wedi'i wneud hyd yma, ac mae'r astudiaeth achos isod yn enghraifft o sut mae pethau wedi gwella yn y maes hwn:

Camau	Cynnydd
Cyflenwi rhaglen cydlyniant cymunedol sy'n creu cyfleoedd i gymunedau ryngweithio â'i gilydd	Y prif ffocws ar gyfer 2017/18 yw cyflenwi rhaglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru 2017-2020 ar gyfer y ddinas, sy'n cynnwys:

Camau	Cynnydd
	<p>Hyrwyddo negeseuon cadarnhaol a gwrthgyfeiriadau ar lefel genedlaethol a lleol sy'n ymwneud â chydaddoldeb a chynhwysiant ac i weithredu'n erbyn gwahaniaethu, gan gynnwys yr wythnos Cydraddoldebau, Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb, wythnos Ffoaduriaid ayb. Mae'r maes gwaith hwn wedi datblygu'n gadarnhaol gydag asiantaethau partner yn gweithio gyda'i gilydd i rannu negeseuon cyffredin yn ogystal â chefnogaeth ar gyfer dulliau aml-asiantaethol i ymdrin â thensiwn cymunedol. Enghraifft fyddai'r ymateb i effaith arestiadau ôl-derfysgaeth yng Nghasnewydd. Sefydlwyd trefniadau rhwng timau cyfathrebu corfforaethol ar draws partneriaid i sicrhau ein bod yn rhannu gwybodaeth gyfoes a chywir gyda'r cyhoedd.</p> <p>Mae'r gefnogaeth a roddir i ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a chymunedau lletyol yn ystod y broses integreiddio wedi parhau i gael ei gyflwyno ar sail aml-asiantaethol ar draws Casnewydd. Cynhwysa hyn gyflenwi'r rhaglen Ailsefydlu yn barhaus ar draws Casnewydd a darparu cefnogaeth integreiddio gan bartneriaid, gan gynnwys Heddlu Gwent, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Choleg Gwent.</p> <p>Parha'r fforwm Trosedd Casineb i weithredu o fewn y ddinas ac mae'n ystyried data a thueddiadau cysylltiedig er mwyn rheoli ymateb addas. Yn ychwanegol, rheolir achosion risg uchel gan grŵp trin achosion sefydledig. Cyflwynwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth ychwanegol ar draws asiantaethau partner mewn perthynas â 'chaselineb ar-lein a'i effaith ar gydlyniant'.</p> <p>Mae Panel Sianel Casnewydd yn rhoi ymateb cefnogol i unigolion sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio ac mae'n gweithio ochr yn ochr â darparwyr ymyrraeth cymeradwy y Swyddfa Gartref. Caiff y panel ei gadeirio gan yr awdurdod lleol ac mae ganddo aelodau sy'n cynrychioli Heddlu Gwent, Prifysgol De Cymru, BIPAB, carchardai a phrawf.</p>
Atal troseddu ac aildroseddu pobl ifanc	<p>At ei gilydd, tra bod gan Gasnewydd (a Gwent) y nifer uchaf o Newydd-ddyfodiaid Tro Cyntaf (FTE) yng Nghymru, mae cymhariaeth ag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru mewn gwirionedd fel cymharu afalau a gellyg, gan fod y broses sy'n sail i benderfyniadau yn hollol wahanol i ardaloedd eraill. Fel y dywedwyd yn flaenorol, mae'r Gwasanaeth Troseddwy Ifanc (GTI) yn parhau i fonitro pob FTE ac yn sicrhau dargyfeirio lle bynnag y bo'n bosibl, ond mae'r broses sydd gennym ar hyn o bryd yn dyrchafu'r bobl ifanc i mewn i'r system.</p> <p>Yn anffodus, ni wnaeth archwiliad thematig Arolygiaeth Prawf EM (HMIP) ar warediadau y tu allan i'r llys a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 roi arweiniad diffiniol ar yr hyn ddylai fod y broses genedlaethol ar gyfer delio â FTE fel y gobeithwyd. Cafwyd trafodaeth bellach ym Mwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gwent (LCJB) a chymeradwywyd cytundeb y gellir adolygu proses Biwro Gwent. Gwnaed hyn, a rhagwelir y bydd y broses ddiwygiedig yn cael ei chadarnhau ym mis</p>

Camau	Cynnydd
	<p>Medi 2018 gan yr LCJB. Bydd hyn yn golygu bod llawer o bobl ifanc yn gallu cael eu dargyfeirio o'r llys a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a thrwy hynny leihau FTE, a fydd yn effeithio'n gadarnhaol ar aildroseddu hefyd.</p> <p>Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein cynnig atal yng ngoleuni'r newidiadau a ragwelir, er mwyn sicrhau ein bod yn darparu dargyfeiriadau ystyrlon a realistig rhag troseddu, ac y gellir bodloni'r galw cynyddol ar y cam ymyrraeth gynnar.</p> <p>Gwahoddodd y GTI adolygiad cyfoedion ym mis Mehefin 2018 a chynhwyswyd argymhellion o'r ymarfer hwn yn y cynllun GTI ar gyfer 2018/19 ac maent yn cynnwys camau gweithredu ar lefel bartneriaeth yn ogystal ag un gwasanaeth.</p> <p>O ran cyflawniadau yn 2017/18, roedd perfformiad adroddedig yn gyffredinol wedi gwella gyda dau eithriad nodedig - cynnydd bach mewn FTE (y rhesymau dros hyn wedi'u hamlinellu uchod) a lleihad bychan mewn perfformiad o ran Hyfforddiant a Chyflogaeth Addysg (ETE) ar gyfer plant oed ysgol. Mae cynllun gweithredu penodol i geisio ymdrin â hyn.</p> <p>Mae tueddiad parhaus yn y gostyngiad yn y defnydd o ddalfa ieuenctid, er bod 33% o bobl ifanc a ddedfrydwyd i'r ddalfa yn 2017/18 wedi eu dedfrydu oherwydd o ganlyniad i dorri eu gorchmynion cymunedol, felly mae angen i'r GTI edrych ar y modd yr ydym yn fwy effeithiol ymgysylltu â phobl ifanc a mabwysiadu arfer mwy ataliol.</p> <p>Hyd yn hyn yn 2018/19, ni ddedfrydwyd unrhyw bobl ifanc i'r ddalfa, er bod nifer o bobl ifanc ar remand ar hyn o bryd am droseddau difrifol, sydd heb eu dedfrydu eto.</p>
<p>Datblygu cymunedau cynaliadwy trwy ddarparu tai o ansawdd da, hygyrch a fforddiadwy</p>	<p>Mae gosod addasiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl wedi perfformio'n dda iawn yn erbyn y targed, ond gall argymhellion a newidiadau yn dilyn adolygiad gwasanaeth arwain at rai newidiadau i'r gwasanaeth a chynnydd posibl mewn diwrnodau cyfartalog ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.</p> <p>Cwblhawyd 3 uned arbenigol o dai fforddiadwy yn ystod y chwarter i bobl ag anableddau dysgu. Parha dychwelyd cartrefi gwag i ddefnydd i fod yn her. Mae'r cynllun benthyciad tai gwag yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd yn unol â gofynion cyllido Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae'r gwasanaethau sy'n ymwneud ag atal digartrefedd wedi'u hymsefydlu o fewn y ddarpariaeth gwasanaeth, a chyfeirir adnoddau at geisio ymdrin yn effeithiol â digartrefedd yn y tarddiad cyn iddo ddigwydd lle bo'n ymarferol bosibl. Sefydlwyd gwasanaethau ychwanegol i ymdrin â chysgu ar y stryd, digartrefedd ieuenctid a</p>

Camau	Cynnydd
	<p>datblygu opsiynau llety yn y sector rhentu preifat yn ogystal ag adeiladu ar y partneriaethau a'r gwaith sy'n bodoli eisoes. Cynhaliwyd archwiliad o broses digartrefedd ac mae hyn wedi cael canlyniad cadarnhaol ac mae'n amlinellu bod y gwasanaeth yn gadarn heb unrhyw fethiannau arwyddocaol.</p>
<p>Atal a ymdrin ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n effeithio ar drigolion a'r gymuned fusnes gan gynnwys ymddygiad gwael cyffredinol, niwsans sŵn, tipio anghyfreithlon, gwerthu alcohol anghyfreithlon i blant a throeddau ar garreg y drws</p>	<p>Cymerodd y swyddogion ran yn Wythnos Masnachwyr Twyllodrus ym Mai 2017. Ymwelwyd â 12 sefydliad ariannol; cafodd 26 cerbyd eu stopio a'u gwirio; canfyddwyd 10 o droseddau; rhoddwyd 3 hysbysiad cosb; darparwyd 9 pecyn cyngor; cyflwywyd 5 cofnod gwybodaeth; ac ymwelwyd â 2 aelwyd gyda'r Heddlu [Tîm Diogelu Defnyddwyr]</p> <p>Ym mis Hydref 2017, gweithredwyd ailstrwythuro i symud nifer o gydweithwyr lechyd yr Amgylchedd (IA) i gael eu cyd-leoli gyda chydweithwyr Diogelwch Cymunedol. Dyluniwyd hyn i ddod â phob un o'r swyddogaethau 'cymdogaeth' at ei gilydd i wella gwasanaethau i'r cyhoedd. Daethpwyd â'r swyddogion 'IA' a'r Swyddogion Cyswllt Ymddygiad Gwrthgymdeithasol at ei gilydd dan reolaeth Prif Swyddog lechyd yr Amgylchedd, gan fod nodweddion cyffredin gan lawer o'r achosion yr ymdriniwyd â hwy. Mae'r Wardeniaid Diogelwch Cymunedol wedi cyflenwi'r ymateb cychwynnol rheng flaen i achosion niwsans sŵn ar gyfer IA ers peth amser, felly mae cydleoli gyda gweithwyr proffesiynol IA wedi bod yn gam cadarnhaol iawn i wella effeithiolrwydd y gwasanaeth.</p> <p>Arolygwyd pob safle trwyddedig metel sgrap i sicrhau cydymffurfiaid â thelerau ac amodau ynghyd â 4 gweithrediad a gwarantau amlasiantaethol a gynhaliwyd ar y safleoedd hyn. Er gwaethaf bod gostyngiad bach wedi bod mewn troseddau metel sgrap, gall effeithiau'r drosedd fod yn andwyol i gymunedau a busnesau lleol, o atal trenau sy'n rhedeg oherwydd ceblau wedi eu torri, i blwm yn cael ei ddwyn o doeau neuaddau cymunedol lleol neu fannau addoli. [Tîm Trwyddedu]</p> <p>Hefyd archwiliwyd yr holl adeiladau hapchwarae a rhoddwyd sylw arbennig i asesiadau risg deiliaid trwyddedau mewn perthynas â gwahardd gamblwyr problemus. [Tîm Trwyddedu]</p> <p>Trwy'r flwyddyn, cynhaliodd swyddogion raglen brynu dan brawf; gan ganolbwyntio ar werthiant alcohol a thybaco i blant. Ceisiodd gwirfoddolwyr o dan 18 oed brynu alcohol (29) tybaco (8) tân gwyllt (6) a chyllyll (16) gan arwain at 12 gwerthiant gwirioneddol (5 alcohol, 2 dybaco a 5 cyllyll). Mae hyn yn gyfradd fethiant o 20% [Tîm Gwarchod Defnyddwyr]</p> <p>Mae trigolion sy'n caniatáu i'w cŵn grwydro yn achosi niwsans sylweddol i'r cyhoedd. Gofala swyddogion yng Nghartref Cŵn Casnewydd am gŵn crwydro ac maent wedi ennill Gwobr Ôl Troed Aur yr RSPCA am eu gwaith. [Tîm Diwydiannol ac lechyd Anifeiliaid]</p>

Camau	Cynnydd
	<p>Parhaodd Swyddogion Cyswllt Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i roi cymorth i bartneriaid megis Heddlu Gwent, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lleol i sicrhau bod yr unigolion hynny sy'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol i eraill yn cael eu trin yn effeithiol. Cadeiriodd y swyddogion gyfarfodydd amlasiantaethol trwy gydol y flwyddyn. Ymatebwyd hefyd i geisiadau am Gymorth i Ddiodefwr.</p> <p>Cafodd Ymgyrch Bang, gweithrediad amlasiantaethol yn canolbwyntio ar atal ymddygiad gwrthgymdeithasol o gwmpas Noson Tân Gwylt, ei chydlynu gan Swyddogion Cyswllt Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac unwaith eto bu'n llwyddiant.</p> <p>Datblygodd Swyddogion Orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ar gyfer Pilgwenlli i gynorthwyo Heddlu Gwent i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn manau cyhoeddus. Dechreuwyd y broses Craffu i adolygu Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Canol y Ddinas ym mis Ionawr 2018.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Warden Diogelwch Cymunedol a swyddogion o Dîm Tai y Gwasanaethau Rheoleiddio wedi bod yn weithredol ar y Diwrnodau Gweithredu Pil aml-asiantaethol, sydd wedi derbyn adborth cadarnhaol gan drigolion a busnesau yn yr ardal.</p> <p>Mae rhan greiddiol o'n strategaeth i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys cyflenwi gweithgareddau gwyrho. Ar ôl nodi ardaloedd sydd â manau problemus potensial yng Nghasnewydd, bu partneriaid cyflenwi yn gweithio gyda gwahanol randdeiliaid i gynllunio strategaeth ymyrryd i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn, neu ar fin cyflawni, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.</p> <p>Ffilm gyfryngau digidol fer yw 'Anti-Social Bob' a grëwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid (GTI) trwy nawdd grant gan Gyngor Dinas Casnewydd a Casnewydd yn Un. Datblygwyd y Project i weithredu fel offeryn ymyrraeth gynnar gyda'r nod o 'dorri'r cylch' o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r ffilm wedi'i theilwra'n benodol i apelio at blant ysgol oedran cynradd a bydd yn cael ei dangos i'r 45 ysgol gynradd ar draws Casnewydd. Bydd staff y GTI, gyda chefnogaeth swyddogion cyswllt Heddlu Gwent a'r Gwasanaeth Tân, yn cyflenwi'r gweithdai gyda'r neges y mae'r ffilm yn ei chyfleu, sef bod 'ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio ar bawb'.</p> <p>Mae ymgyrch Balchder yng Nghasnewydd wedi parhau drwy gydol 2017/18, gyda gweithgareddau rhagweithiol ac adweithiol i leihau effaith negyddol tipio anghyfreithlon a gwaith cydweithredol gyda</p>

Camau	Cynnydd
	<p>grwpiau cymunedol ac asiantaethau eraill fel Cadwch Gymru'n Daclus, yr heddlu a'r frigâd dân. Bu cydweithwyr Iechyd yr Amgylchedd yn ymchwilio i 189 o achosion o dipio anghyfreithlon.</p>
<p>Gweithio gyda phartneriaid allweddol i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau, a gwella cydlyniant a llesiant cymunedol ym Mhilogwenlli, a defnyddio'r model sy'n canolbwyntio ar yr ardal hon i lywio rhaglenni posibl yn y dyfodol mewn ardaloedd eraill yng Nghasnewydd.</p>	<p>Mae gwaith partneriaeth yn gwella rhwng y Cyngor, yr Heddlu, Aelodau'r Ward, partneriaid adfywio a chynrychiolwyr y gymuned. Bellach, cynhaliwyd 6 Diwrnod Gweithredu Pil ers dechrau Gorchymyn Diogelu Lleoedd Cyhoeddus Pil yn 2017. Ffurfiwyd rhaglen waith Pil gan y trigolion a chynhaliwyd arolygon canfyddiad i fesur cynnydd.</p> <p>Parha Pil i fod yn brif ffocws i'r model sy'n canolbwyntio ar ardal, ond mae dull tebyg yn ymddangos yn Ringland gydag ailddatblygiad arfaethedig y ganolfan siopa a'r canolfannau cymunedol gyda'r bwriad o wella llesiant a lleihau troseddau/ YGG. Roedd y model Pil hefyd yn rhagflaenydd i waith ehangach traws-Casnewydd ar Drosedd Difrifol a Threfnedig - sy'n nodi gwytnwch cymunedol ac ymgysylltiad fel rhan hanfodol o atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.</p>
<p>Gweithio tuag at gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg a hyrwyddo'r iaith Gymraeg ym mhob rhan o fywyd</p>	<p>Cymeradwywyd y Strategaeth Iaith 5 mlynedd gan y cyngor ym mis Mawrth 2017 ac mae'n cynnwys llawer o gamau sy'n ceisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd dros y 5 mlynedd nesaf.</p> <p>Er mai dim ond ym mlwyddyn gyntaf y strategaeth yr ydym, gall yr awdurdod eisoes nodi nifer o lwyddiannau o ran cyflenwi. Mae hyn yn cynnwys datblygu taflen hyrwyddo 'Buddion Dwyieithrwydd', a ganmolwyd yn eang oherwydd ei dyluniad a'i chynhwysedd, a datblygu project ymgysylltu grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) pwrpasol sy'n ceisio gwella'r ffyrdd y mae sefydliadau Cymraeg yn ymgysylltu â grwpiau lleiafrifoedd ethnig gwahanol yng Nghasnewydd.</p>
<p>Cyflenwi gwasanaeth llyfrgell cynaliadwy a chynnig diwylliannol amrywiol</p>	<p>Mae'r Cyngor wedi cytuno i ymuno â System Rheoli Llyfrgell Cymru Gyfan. Menter sy'n cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru yw hon, ac mae'n golygu canolfan ddata llyfrgell gyffredin lle bydd modd benthyca unrhyw lyfr a gynhelir mewn llyfrgell gyhoeddus yng Nghymru. Bydd y fenter hon yn cynyddu dewis darllenwyr, yn gwella cydweithio rhwng awdurdodau'r Llyfrgell ac yn cynnig arbedion ar gaffael stociau llyfrau</p> <p>Partneriaeth lwyddiannus i greu arddangosfa newydd yn ail-ddehongli adran Pobl Gynnar yr arddangosfa barhaol yr Amgueddfa fel rhan o'r project Lefelau Byw.</p> <p>Yn ystod chwarter cyntaf 2018, bu cynnydd yn niferoedd ymwelwyr i 118,814 o'i gymharu â chwarter cyntaf 2017-18 pryd y bu 116,542 o ymweliadau. Ym mis Mawrth / Ebrill, cynhaliodd y gwasanaeth ei arolwg cwsmeriaid bob dwy flynedd, ac yn gyffredinol roedd y canlyniadau yn welliant yn yr arolwg diwethaf a gynhaliwyd yn 2016. Defnyddir yr arolygon i lenwi ffurflenni Safon Llyfrgell Gyhoeddus Cymru ac roedd yr ymatebion yn fwy positif mewn nifer o ddangosyddion allweddol:</p>

Camau	Cynnydd		
	Dangosydd Ansawdd	Canlyniad 2018	Canlyniad 2016
	Canran yr oedolion sy'n teimlo bod y llyfrgell yn lle diogel, pleserus a chynhwysol	96%	95%
	Canran yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau	85%	77%
	Canran y plant 7-16 oed sy'n credu bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a dod o hyd i bethau	92%	89%
	Canran yr oedolion sy'n credu bod y dewis o lyfrau yn 'dda iawn' neu'n 'dda'	91%	89%
	Canran yr oedolion sy'n credu bod safon gofal cwsmeriaid yn 'dda iawn' neu'n 'dda'	97%	95%
	Canran yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell yn 'dda iawn' neu'n 'dda' yn gyffredinol	95%	92%
	<p>Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn parhau i gynnal rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar draws ein holl safleoedd sy'n cefnogi'r cynnig diwylliannol ehangach. Mae enghreifftiau o'r gweithgareddau rheolaidd a gynigiwn yn cynnwys sesiynau clwb stori ar gyfer plant cyn ysgol; gweithgareddau gwyliau; Sesiynau Odli Iaith Gymraeg; a sesiynau Canu a Gwenu a drefnwyd gan Goldies Cymru yn Llyfrgell Caerllion.</p> <p>Mae Amgueddfa ac Oriol Gelf Casnewydd yn hyrwyddo cyfranogiad diwylliannol trwy gynnig amrywiaeth o arddangosfeydd, digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd. Cyfranna darparu cyfleoedd am ddim ac amrywiol i ymgysylltu ag hanes a threftadaeth Casnewydd yn uniongyrchol at yr agenda llesiant. Ceir tystiolaeth o lwyddiant gweithgareddau'r Amgueddfa mewn cynnydd yn niferoedd ymwelwyr o 3.9% yn 2017/18 o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol.</p> <p>Ategir arddangosfeydd parhaol gan arddangosfeydd dros dro a ddatblygir yn aml mewn cydweithrediad agos ag artistiaid lleol, diddordebau arbennig neu grwpiau cymunedol. Yn ddiweddar, bu staff yn gweithio gyda Chyfeillion Llong Casnewydd a Chyfeillion yr Amgueddfa ac Oriol Gelf ar arddangosfeydd dros dro i ddathlu 15 mlynedd ers darganfod Llong Ganoloesol Casnewydd ac arddangos casgliad yr Amgueddfa o brintiau modern.</p>		

Camau	Cynnydd
	<p>Mae rhaglen barhaus o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cynnig cyfleoedd i ymgysylltu ag agweddau o hanes Casnewydd a chasgliadau'r Amgueddfa mewn amryw o ffyrdd. Amrywia'r gweithgareddau o sgysiau ffurfiol a theithiau storfa tywys i drin gwrthrychau a sesiynau crefft teuluol, gan gynnwys gweithdai a arweinir gan artistiaid cyfredol. Mae gweithgareddau a llwybrau hunan-arwain yn annog teuluoedd i archwilio'r Amgueddfa ac Oriol Gelf ar eu cyflymder eu hunain. Profodd llwybr drws a gynlluniwyd ar gyfer plant bach yn arbennig o lwyddiannus.</p> <p>Mae staff yn ymgysylltu â darparwyr addysg ffurfiol, gan gynnwys ysgolion, trwy gynnig profiadau wedi'u teilwra sy'n anelu at archwilio agweddau o gasgliadau'r Amgueddfa. Cafodd gweithdai barddoniaeth gydag ysgolion lleol eu hysbrydoli gan lun syrcau y Grand Parade gan y Fonesig Laura Knight yn gynharach eleni, a galluogodd cronfa sbarduno Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg grŵp o ddysgwyr blwyddyn 9 o Ysgol Uwchradd Llanwern i archwilio ac ymchwilio i wrthrychau a hanes Casnewydd fel sail ar gyfer profiad ystafell ddianc.</p> <p>Mae'r Amgueddfa'n cynnig cyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith a gwirfoddoli ac mae'n bartner arweiniol yn y project Cyfuno, gan ddarparu cyfleoedd i grwpiau cymunedol difreintiedig ymgysylltu â threftadaeth Casnewydd a chael eu hysbrydoli.</p>
Gweithio gyda phartneriaid allweddol i hyrwyddo parciau, mannau agored a llwybr yr arfordir y ddinas	Mae CDC yn bartner gyda'r Bartneriaeth Lefelau Byw. Yn ystod y digwyddiadau, bu CDC â stondinau a bu'n rhannu taflenni i hyrwyddo mannau gwyrdd y ddinas.
Datblygu cyfleoedd ar gyfer cynnwys, cyfranogi ac ymgysylltu â'r gymuned	<p>Sicrhawyd gyllid i gynnal arolygon wifi bws am y 3 blynedd nesaf. Mae hyn wedi gwella'n sylweddol cyrhaeddiad ymgysylltu'r Cyngor i 6000-8000 o bobl bob mis, ac mae'n rhoi mynediad i ddinasyddion iau.</p> <p>Mae adolygiad ymgysylltu ar y gweill i ystyried ein cyrhaeddiad cyfredol, dulliau ac adnoddau a'r arferion gorau. Bydd yn adrodd i'r Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu.</p> <p>Mae'r Diwrnodau Gweithredu Pil a amlinellir uchod yn grymuso'r gymuned leol a gwella eu cyfalaf cymdeithasol.</p> <p>Datblygir cyfranogiad a chyfranogiad pobl ifanc gydag ehangu Cyngor Ieuenctid Casnewydd, gyda darparwr newydd yn rhedeg y gwasanaeth hwn. Arweinwyd comisiynu'r gwasanaeth hwn gan bobl ifanc a chawsant eu cynnwys ym mhob cam caffael.</p>

3. Sicrhau bod gan bobl fynediad i lety addas – Da – Gwyrdd

Amcan: Sicrhau bod gan bobl fynediad i lety addas. I'r rhan fwyaf o bobl, mae eu cartrefi yn sylfaen i fywyd pob dydd ac yn hanfodol i'w hansawdd bywyd. Mae'r rhan fwyaf o aelwydydd yn gallu dod o hyd i

gartrefi trwy berchen-feddiannaeth, y sector rhentu cymdeithasol neu'n fwyfwy, y farchnad rhentu preifat, ond mae angen inni sicrhau bod y cyflenwad tai yn cyd-fynd ag anghenion tai lleol a bod cymorth ar gael i deuluoedd unigol na allant ddod o hyd i gartrefi neu sydd â thai anaddas, mewn cyflwr gwael neu mewn perygl. Mae'r amcan hwn yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cymru o 'Gymru o gymunedau cydlynol', 'Cymru fwy cyfartal', 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' a 'Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'.

Mae'r amcan hwn yn cael ei raddio yn wyrdd - da; mae'r holl gamau gweithredu ar y trywydd iawn, cynnydd da wedi ei wneud drwy'r flwyddyn.

4. Datblygu ac adfywio'r Ddinas – Da – Gwyrdd

(Gweler Amcan Llesiant 2)

8. Gwella canlyniadau ar gyfer cyfiawnder ieuencid - Derbyniol - Oren

Amcan: Prif amcan y system cyfiawnder ieuencid, a sefydlwyd gan adran 37 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, yw atal plant a phobl ifanc rhag troseddu. Ymwna hyn ag atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu; defnydd priodol o Ddiddymiadau Allan o Lys i ddargyfeirio pobl ifanc o'r system cyfiawnder troseddol; gan leihau cyfradd yr aildroseddu profedig a lleihau cyfran y bobl ifanc a ddedfrydir i'r ddalfa. Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, credwn fod atal yn well na gwella, a bod plant yn bobl ifanc yn gyntaf, a throseddwy'r yn ail. Mae'r amcan hwn yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cymru o 'Gymru o gymunedau cydlynol', 'Cymru fwy cyfartal' a 'Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'.

Mae'r amcan hwn yn cael ei raddio yn oren – derbyniol; cafwyd gwelliant positif yn gyffredinol, fodd bynnag, mae rhai camau gweithredu yn disgyn yn fyr o'r canlyniadau a gynlluniwyd ac mae 3 mesur coch.

Astudiaeth Achos – Ymateb aml-asiantaeth i lythyrau 'Cosbi Mwslim'

Ym mis Mawrth 2018, anfonwyd llythyrau anhysbys i gyfeiriadau ar draws y DU yn galw am ymosodiad cydlynol ar Fwslimiaid. Er na dderbyniwyd llythyrau yng Nghasnewydd, mae delweddau o'r nodiadau A4, sy'n cynnwys rhestr o weithredoedd treisgar ochr yn ochr â nifer o bwyntiau ar gyfer eu perfformio, wedi cael eu rhannu'n eang ar-lein. Roedd hyn yn achosi cryn bryder yn y cymunedau yng Nghasnewydd a mynegwyd pryderon gan ysgolion a chynrychiolwyr cymunedol.

Datblygwyd cyd-ymateb rhwng y cyngor, Heddlu Gwent a phartneriaid eraill i roi sicrwydd i'r cymunedau yr effeithiwyd arnynt, yn ogystal â sicrhau bod gwasanaethau'n barod i ymateb i unrhyw ddigwyddiadau.

Rhannwyd neges gytunedig ar draws yr holl asiantaethau, gan egluro nad oedd lle i gasineb yng Nghasnewydd ac y byddai unrhyw ddigwyddiadau yn derbyn ymateb cadarn. Rhannwyd gwybodaeth ychwanegol ar sut i roi gwybod am bryderon a digwyddiadau trwy rwydweithiau staff y sector cymunedol a chyhoeddus. Cafwyd ymateb da i'r ymatebion cydlynol gan y cymunedau a effeithiwyd, a darparwyd templed i bartneriaid y sector cyhoeddus ar resymau effeithiol i ddigwyddiadau / materion yn y dyfodol.

Fframwaith Adrodd ar Lesiant

Gosodwyd a chyhoeddwyd amcanion llesiant fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid Gwasanaeth a chytunwyd arnynt gan y Cabinet a'r Cyngor. Mae fframwaith adrodd bellach ar waith a fydd yn dangos sut a phryd y bodlonir yr amcanion. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhan o'r fframwaith sy'n amlygu'r cynnydd a wnaed dros y 12 mis diwethaf, sut mae'r amcanion yn cyfrannu at

nodau llesiant a'r camau yr ydym yn eu cymryd i fodloni'r amcanion, sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Fel rhan o'r fframwaith adrodd, rydym yn datblygu tudalennau ar ein system rheoli perfformiad (MI Hub) a fydd yn cael eu defnyddio i fonitro cynnydd tuag at gyflawni pob amcan llesiant. Bydd y swyddogion cyfrifol yn diweddarau'r MI Hub bob chwarter, gan roi manylion am y cynnydd tuag at bob cam a gweithgaredd arfaethedig ar gyfer y chwarter nesaf, yn ogystal â barn gyffredinol am bob amcan. Cysylltwyd dangosyddion perfformiad y Cynllun Gwasanaeth â'r camau llesiant a byddant yn cael eu defnyddio i helpu i bennu cynnydd cyffredinol. Mantais defnyddio MI Hub yw y gallwn roi data a sylwebaeth i mewn unwaith ac yna ei ddefnyddio mewn sawl man, gan leihau'r angen i ddyblygu. Mae MI Hub yn ein galluogi i gael dull mwy cyfannol o fonitro gan ein bod yn gallu cysylltu strategaethau a chynlluniau e.e. bydd amcanion y cynllun gwasanaeth yn gysylltiedig â'r amcanion llesiant, a gall pob un o'r cynlluniau hyn gysylltu yn ei dro â'r Cynllun Corfforaethol fel y bo'n briodol.

Crynodeb o Fesurau Cenedlaethol

Yn 2017/18 roedd 49 o Fesurau Cenedlaethol, gyda'r rhain yn cynnwys Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAM) a Mesurau Perfformiad y Gwasanaeth Cymdeithasol (SSPM). Mae'r pwyntiau isod yn tynnu sylw at berfformiad y cyngor yn 2017/18 ar gyfer y mesurau cenedlaethol yn gyffredinol:

- mae 59% o fesurau cenedlaethol wedi perfformio'n well na'r targed
- mae 43% o fesurau cenedlaethol wedi perfformio'n well na'r llynedd (42 o fesurau gyda data cymaradwy)

Darperir data Cymru Gyfan ar gyfer 2017/18 mewn adroddiad ar wahân, unwaith y bydd Data Cymru wedi ei ryddhau.

Cynigion SAC ar gyfer Gwella

Yn ystod 2013/14 derbyniodd y cyngor ei Asesiad Corfforaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) sy'n cynnwys chwe argymhelliad ar gyfer gweithredu. Gwnaed cynnydd tuag at gyflenwi cynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Gwella ac argymhellion.

Dychwelodd Swyddfa Archwilio Cymru i gynnal adolygiad dilynol o'r Asesiad Corfforaethol 2014/15; arweiniodd hwn at ddileu ac adolygu'r argymhellion gwreiddiol a'r Cynigion ar gyfer Gwella ac ychwanegu argymhelliad. Cynhaliwyd adolygiad pellach o'r Asesiad Corfforaethol gan SAC yn 2015/16; gostyngodd hyn nifer yr argymhellion o 7 i 4, sy'n dangos bod y cyngor wedi gwella, er gwaethaf pwysau ariannol a deddfwriaethol parhaus.

Gellir dod o hyd i fanylion ychwanegol ar y camau hyn ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Dolenni a mwy o wybodaeth:

[Cynllun Corfforaethol 2017-2022](#)

[Cynllun Gwella 2016-18](#)

[Crynodeb Cynllun Gwella 2016-18](#)

[Cynllun Corfforaethol 2012-2017](#)

[Tudalennau Gwe Rheoli Perfformiad](#)

Dweud eich dweud

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwmo i wella ein gwasanaethau, ac mae'n bwysig ein bod yn gwrando ar yr hyn sydd gan y gymuned i'w ddweud. Croesawn eich sylwadau neu'ch awgrymiadau ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

Os oes gennych unrhyw sylwadau, neu os hoffech unrhyw wybodaeth bellach, neu i ofyn am gopi o'r adolygiad hwn o'r Cynllun Gwella, cysylltwch â'r:

Tîm Perfformiad Corfforaethol
Cyngor Dinas Casnewydd
Canolfan Ddinesig
Casnewydd
NP20 4UR

E-bost: rheoli.perfformiad@casnewydd.gov.uk

Ffôn: 01633 656656

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i rym yng Nghymru ar 29 Ebrill 2015. Mae a wnelo'r Ddeddf â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn peri i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a mabwysiadu dull gweithredu mwy cydgyssylltiedig. Gwna Rhan 2 o'r Ddeddf hi'n ofynnol i'r Cyngor bennu a chyhoeddi Amcanion Llesiant sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'n cyfraniad at gyflawni'r saith Nod Llesiant i Gymru a bennir yn y Ddeddf. Ar yr un pryd, rhaid i ni gyhoeddi datganiad sy'n egluro pam y bydd cwrdd â'r amcanion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant a pha gamau y byddwn yn eu cymryd i fodloni'r amcanion. Cyhoeddodd y Cyngor ei Amcanion Llesiant a Datganiad Llesiant ym mis Mawrth 2017.

Fel Cyngor, mae'n ofynnol i ni adrodd am y cynnydd a wnaed wrth fodloni'r amcanion llesiant, dangos sut yr ydym yn cymryd camau rhesymol i fodloni'r amcanion llesiant hyn, a sicrhau eu bod yn parhau'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Dengys yr adroddiad blynyddol hwn yn glir sut mae pob amcan llesiant yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a phum ffordd o weithio. Yn ogystal, mae'r saith maes corfforaethol o newid, fel y'u nodir yn y canllawiau i'r Ddeddf, wedi dechrau addasu ffyrdd ein sefydliad o weithio. Er enghraifft:

- Cynllunio Corfforaethol - mae gan y Cyngor strategaeth gyffredinol yn awr sy'n cynnwys y Cynllun Corfforaethol gyda phedwar amcan llesiant ac 20 ymrwymiad ("20 peth erbyn 2022"), cynllun llesiant ar gyfer y ddinas a chynlluniau gwasanaeth unigol, y mae pob un ohonynt yn darparu cyd-destun i waith y sefydliad yn fewnol ac mewn partneriaeth ag eraill. Rydym wedi datblygu ac addasu offer rheoli ar gyfer rhaglenni, rheoli projectau a pherfformiad i ymgorffori'r pum ffordd o weithio a nodau llesiant, gan gynnwys templedi adroddiadau, templedi cynllun ardal gwasanaeth, hyb gwybodaeth reoli, a'r adroddiad blynyddol hwn. Ymgwymerwyd â hyfforddiant aelodau a staff ac mae gwaith ymgysylltu yn parhau gyda meysydd gwasanaeth a thimau i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad ar y Ddeddf. Rydym wedi dechrau cymhwyso'r pum ffordd o weithio ar ddechrau gweithgaredd, a thrwy gynllunio busnes a rheoli rhaglenni yn eu cyfanrwydd.

- Cynllunio ariannol - mae'r Cyngor yn ymgymryd â gwerthusiad ac asesiad trylwyr o'i sefyllfa gyllidebol trwy adolygiadau craffu a chynigion newid busnes i benderfynu ar gyflenwi ei wasanaethau trwy'r cynlluniau ariannol blynyddol a'r adolygiad blynyddol. Mae'r broses gosod cyllideb hefyd yn destun i ymgynghoriad â'i randdeiliaid fel dinasyddion Casnewydd, Undebau Llafur, Aelodau'r Cyngor a Chomisiwn Tegwch Casnewydd.
- Cynllunio'r gweithlu – dylanwadodd y Ddeddf ar Strategaeth Pobl a Diwylliant y Cyngor ac mae'r amcanion yn y strategaeth yn cyd-fynd â'r nodau llesiant a phum ffordd o weithio. Noda'r strategaeth sut mae cynllunio gweithlu yn cyfrannu at y Ddeddf yn strategol ac yn weithredol. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi lansio Fframwaith Rheoli Talent newydd sy'n rhan o'i ymrwymiad i ddatblygu gweithlu cymhelledig, galluog ac ymgysylltiedig ochr yn ochr â chynhwysedd adeiladu ac arweinyddiaeth reoli. Mae'r Fframwaith yn cymryd agwedd gynhwysol, gan ddarparu rhaglen integredig o gyfleoedd datblygu ar gyfer pob lefel o'r gweithlu.
- Caffael - mae Strategaeth a Phroses Porth Caffael y Cyngor yn galluogi'r Awdurdod i sicrhau bod gweithgarwch caffael a chomisiynu yn darparu gwerth economaidd a gwasanaethau cynaliadwy i'w ddefnyddwyr. Mae gan y Cyngor berthynas gadarnhaol gyda'i bartneriaid rhanbarthol a sefydliadau trydydd sector, gan sicrhau bod nodau a dyheadau'r Ddeddf yn cael eu halinio a'u diwallu. Comisiynodd y Cyngor wasanaethau cymorth mewn Addysg fel gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol a hefyd mae'n arwain at gaffael gwasanaethau rhanbarthol fel cymorth camddefnyddio sylweddau.
- Asedau - mae rheoli asedau yn cynnwys trosglwyddo asedau cymunedol a datblygu cynllun asedau yn flaenoriaethau allweddol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor a Chynllun Llesiant y ddinas. Mae partner gwasanaethau eiddo'r Cyngor, Newport Norse, yn defnyddio'r pum ffordd o weithio a nodau llesiant fel rhan o'u dull o reoli asedau, gan gynnwys gweithdrefnau adrodd. Hefyd mae'r Cyngor yn datblygu ei Strategaeth Rheoli Asedau Priffyrdd a chofrestr asedau gwybodaeth i gynorthwyo meysydd gwasanaeth wrth gyflawni amcanion llesiant.
- Rheoli risg - mae'r Ddeddf yn rhoi cyfle i'r Cyngor ddatblygu dull mwy cydlynol ac integredig o reoli risg. Mae'r Strategaeth Rheoli Risg Gorfforaethol yn ymwneud yn uniongyrchol â'r pum ffordd o weithio a amlinellwyd yn egwyddor datblygu cynaliadwy y Ddeddf. Hefyd mae swyddogaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn datblygu cynllun archwilio blynyddol seiliedig ar risg sy'n seiliedig ar risgiau corfforaethol y Cyngor ac yn darparu sicrwydd o ran y rheolaethau effeithiolrwydd sydd ar waith i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion. Mae rheoli risg yn faes allweddol i weithredu'r Ddeddf; rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn ystyried risgiau yn y tymor byr, canolig a hirdymor a'i fod yn rheoli risgiau

mewn modd sy'n diogelu cyflenwi gwasanaeth presennol a chymunedau, yn ogystal ag ystyried yr effaith hirdymor. Helpa cofrestr risg gorfforaethol y cyngor i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, trwy ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn y Ddeddf.

- Rheoli perfformiad - mae'r Ddeddf yn rhoi cyfle i'r cyngor ffocysu ei flaenoriaethau i sicrhau bod y cyngor yn mwyafu ei gyfraniad at nodau llesiant Cymru, yn dangos gwelliant parhaus ac yn parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i bobl leol. Cefnoga'r strategaeth rheoli perfformiad gyflenwi cynllun corfforaethol y cyngor ac mae'n anelu at ymgorffori diwylliant lle mae pawb yn ymwybodol o'u cyfraniad at weledigaeth y cyngor - Gwella Bywydau Pobl.

Cydraddoldebau a'r iaith Gymraeg

Cydraddoldebau

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd yr awdurdod ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol statudol (SEP) a nododd naw Amcan Cydraddoldeb y byddai'r awdurdod yn mesur ei hun yn eu herbyn dros oes y strategaeth.

Nawr ein bod wedi cwblhau ail flwyddyn y cynllun, gall yr awdurdod ddangos cynnydd cadarnhaol tuag at gyflawni ei Amcanion Cydraddoldeb a gall ddangos tystiolaeth o'r gwaith caled sydd wedi'i gyflawni o dan gyfarwyddyd y SEP. Cymeradwywyd [Adroddiad Blynyddol](#) diweddaraf y cynllun gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2018 ac mae'n adlewyrchu'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn flaenorol, yn ogystal â nodi'r blaenoriaethau y bydd yr awdurdod yn ceisio eu cyflawni yn ystod blynyddoedd y cynllun.

Parha'r Grŵp Cydraddoldeb Strategol (SEG) i ddarparu llywodraethu effeithiol ar gyfer y SEP, a dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae wedi symud i gwrdd bob deufis er mwyn cynyddu'r raddfa o oruchwyliaeth a ddarperir i bob Amcan Cydraddoldeb, tra'n dal i ystyried materion sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â'r agenda cydraddoldeb ar draws y ddinas. Caiff y SEG ei gadeirio gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet ar gyfer Asedau, Cydraddoldeb a Datblygiad Aelodau ac mae ganddo gynrychiolaeth o blith aelodau etholedig, y Comisiwn Tegwch a swyddogion awdurdodau lleol o bob rhan o'r sefydliad.

Cymraeg

Roedd y flwyddyn ariannol 2017-18 yn cynrychioli ail flwyddyn lawn o weithredu'r rhan fwyaf o'r Safonau Iaith Gymraeg, a ddaeth i rym ar y 30^{ain} o Fawrth 2016.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r awdurdod wedi adeiladu ar y cynnydd a gyflawnwyd ers y cyfnod gweithredu a gall fod yn hyderus yn awr bod y Gymraeg wedi'i phrif ffrydio i'r rhan fwyaf o swyddogaethau'r cyngor, gyda staff yn deall safonau'r Gymraeg a rhwymedigaethau'r awdurdod i raddau helaeth. Lle mae problemau gyda safonau gweithredu yn bodoli, mae'n ymwneud yn bennaf â meddalwedd a phensaernïaeth ddigidol nad yw'n gallu gweithredu'n ddwyieithog. Wrth i'r rhaglenni hyn gyrraedd diwedd naturiol eu cylch bywyd gweithredol, bydd systemau newydd yn cymryd eu lle, a all weithredu mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg y mae'r awdurdod yn destun iddynt ar hyn o bryd.

Parha gweithredu'r Safonau Iaith Gymraeg i fod ar Gofrestr Risg y Cyngor; fodd bynnag, mae'r lefel risg bellach wedi'i gostwng i Risg Ganolig, gan adlewyrchu'r gwaith mae'r awdurdod wedi'i wneud dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Roedd 2017-18 hefyd yn flwyddyn gyntaf Strategaeth Iaith Gymraeg 5 mlynedd yr awdurdod. Er mai ym mis Mawrth 2017 y daeth y cynllun i rym, mae'r awdurdod, gan weithio'n agos â phartneriaid, eisoes wedi gallu cyflawni llawer o'r camau y nodwyd yn wreiddiol yn y strategaeth. Mae hyn yn cynnwys datblygu gwell taflen i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chyflenwi project arloesol a anelwyd at wella sut mae mentrau iaith Gymraeg yn ymgysylltu â chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) ledled y ddinas.

Gweler adroddiad llawn ar gynnydd yr awdurdod tuag at gydymffurfiaeth a mwy o wybodaeth ar sut y mae llywodraethu o ran swyddogaethau'r Gymraeg yn gweithio yn yr [Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg](#) diweddaraf a gymeradwywyd gan y Cabinet yng Ngorffennaf 2018.

Rydym wedi ymgynghori ar Gynllun Iaith Gymraeg 5 mlynedd ar gyfer Casnewydd ac mae'r adborth a dderbyniwyd yn dangos bod trigolion yn gwerthfawrogi'r iaith ac o blaid darparu gwasanaethau ac addysg trwy gyfrwng y Gymraeg i'r rhai sy'n gwneud cais amdanynt. Cymeradwyodd y Cyngor y Cynllun 5 mlynedd ym mis Mawrth 2017 a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid lleol i weithredu'r Cynllun yn y blynyddoedd i ddod.

Cwynion a chanmoliaeth gorfforaethol

Cwynion

2017/2018 yw'r seithfed flwyddyn yn olynol lle mae nifer y cwynion anffurfiol (cam 1) a dderbyniwyd wedi gostwng ers i gofnodi'r broses gorfforaethol ddechrau yn 2011.

Gellid dehongli'r gostyngiad hwn mewn cwynion anffurfiol a dderbyniwyd mewn sawl ffordd:

- Mae'r cyngor yn awr yn darparu llai o wasanaethau.
- Efallai bod gwelliant cyffredinol yn ansawdd a phrydlondeb y ddarpariaeth gwasanaeth, felly nid yw cwsmeriaid yn dymuno gwneud cymaint o gwynion.
- Efallai bod gwelliant cyffredinol mewn cyfathrebu felly mae gan gwsmeriaid well dealltwriaeth o ba wasanaethau y mae'r cyngor yn eu cyflenwi a pha rai nad ydynt; felly mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cwrdd â'u disgwyliad.
- Mae'r maes gwasanaeth yn ymdrin â chwynion cychwynnol (yn unol â'r polisi) ond nid ydynt yn cael eu cofnodi'n ganolog ar CRM.

Lleihaodd cwynion Cam 2 ychydig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, i lawr o 30 i 24. Gall hyn ddangos;

- Bod cwsmeriaid yn cael gwell gwasanaeth ac ymateb pan fyddant yn codi cwynion anffurfiol, sy'n golygu bod cwsmeriaid yn fodlon ag ymgais gyntaf y cyngor i ddatrys y gŵyn.
- Bod swyddogion wedi dod yn well wrth ymateb i gwynion anffurfiol, gydag ymatebion o safon yn cael eu darparu mewn modd amserol.

Mae nifer y cwynion a gyflwynir gan cwsmeriaid i'r Ombwdsman yn dilyn y broses dau gam wedi gostwng yn sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, o 28 i 6. Yn ddiweddar, cyhoeddodd yr Ombwdsmon ddyddiadau cau tynnach i sefydliadau ymateb i'w ymholiadau o fewn wythnos. Er bod y cyngor wedi gallu trafod amserau ymateb hirach pan fo'n briodol, mae'r amserlenni llym hyn yn cynrychioli pwysau cynyddol ar adnoddau cyfyngedig. Cyflewyd hyn i'r Ombwdsman fel rhan o Fforwm Cwynion Cymru Gyfan, lle mae gan y cyngor gynrychiolaeth.

O'r 284 o gwynion a dderbyniwyd, cafodd 25 eu cau neu eu canslo gan nad oeddent yn gwynion. Gallai hyn fod oherwydd nad oedd cais cychwynnol am wasanaeth wedi'i gyflwyno yn gyntaf, neu oherwydd bod proses apelio i'w dilyn yn lle hynny. Roedd 60 o gwynion a dderbyniwyd ynghylch diffyg ymateb, amseroedd aros am wasanaethau neu rwystrau i gael mynediad at wasanaethau.

Yn dilyn adolygiad ac ymchwiliad, cadarnhawyd 71 o gwynion a chadarnhawyd 24 cwyn pellach yn rhannol. Ni chadarnhawyd 164 o gwynion a dderbyniwyd.

Yn gyfrannol, mae'r ganran o gyfanswm cwynion nas cadarnhawyd wedi cynyddu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (27% i fyny i 57%). Mae canran y cyfanswm o gwynion a dderbyniwyd a gafodd eu cadarnhau'n llawn neu'n rhannol wedi gostwng o 49% yn 2016/2017 i 33% yn 2017/18.

Canmoliaeth

Cofnodwyd cyfanswm o 159 o sylwadau canmoliaethus yn 2017/2018, mae hwn yn gynnydd o 20% o'i gymharu â'r 127 a dderbyniwyd yn y flwyddyn flaenorol. At ei gilydd, y meysydd gwasanaeth sy'n derbyn y mwyafrif o gwynion yw'r meysydd a gafodd y mwyaf o sylwadau canmoliaethus gan mai'r rhain yw'r gwasanaethau rheng flaen mwyaf gweladwy.

Y Gwasanaethau Stryd a Dinasoedd a dderbyniodd y gyfran fwyaf o sylwadau canmoliaethus - mae hyn yn rhannol oherwydd bod y gwasanaethau hyn mor weladwy i'r cyhoedd. Mae'r sylwadau canmoliaethus a gofnodwyd ar gyfer Gwasanaethau Stryd yn bennaf oherwydd yr ymateb cyflym a roddir i gais gan gwsmer. Derbyniodd y Gwasanaethau Cwsmeriaid y rhan fwyaf o'u sylwadau canmoliaethus am natur gynorthwyol a dymunol y staff sy'n darparu gwasanaeth effeithlon a chyfeillgar.

Yn 2017/18, gwelwyd uchafbwynt mewn sylwadau canmoliaethus i Adfywio, Buddsoddi a Thai yn ystod yr haf; mae'r sylwadau canmoliaethus a dderbyniwyd yn ymwneud â Gwasanaethau Cynllunio a Thai.

Gweithio mewn partneriaeth a chydweithio

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwmo i weithio mewn partneriaeth ar nifer o feysydd darparu gwasanaethau gydag amrywiaeth o bartneriaid. Yn 2017/18, cydweithiodd y cyngor yn helaeth gyda phartneriaid a rhanddeiliaid eraill ar draws meysydd gwasanaeth.

Sefydlodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Casnewydd yn Un. Gellir gweld aelodau'r bwrdd a'r papurau ar gyfer y flwyddyn ar wefan Casnewydd yn Un, eleni mae'r BGC wedi cyhoeddi Cynllun Llesiant ([add link](#)) ar gyfer Casnewydd sy'n nodi blaenoriaethau, amcanion a rhaglen waith llesiant ar gyfer y pum mlynedd nesaf, hyd at 2023.

Sefydlwyd Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad i gydlynu a monitro'r gwaith o gyflawni'r themâu a'r blaenoriaethau fel y'u nodir yn y Cynllun Llesiant ar ran y BGC. Ei rôl yw sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn egwyddor hollbwysig yng ngweithgareddau'r grŵp. Golyga hyn weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Golyga hyn weithio mewn ffyrdd sy'n cymryd i ystyriaeth:

- a. Tymor hir:** Pwysigrwydd cydbwysio anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion tymor hir hefyd.
- b. Atal:** Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrrff cyhoeddus i gwrdd â'u hamcanion.
- c. Integreiddio:** Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrrff cyhoeddus eraill.
- d. Cydweithio:** Gweithio mewn cydweithrediad ag unrhyw berson arall (neu rannau gwahanol o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.
- e. Ymgysylltiad:** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

Ar ran y BGC, mae tri phrif faes cyfrifoldeb i'r Bwrdd: cydlynu, rheoli perfformiad; ac atebolrwydd statudol. Mae aelodaeth y Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad yn cynnwys uwch arweinwyr o'r sefydliadau hynny sydd â chyfrifoldeb statudol naill ai fel yr amlinellir yn y canllawiau cyfredol (Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol). Mae'r aelodaeth bresennol fel a ganlyn:

- Prif Weithredwr, Cyngor Dinas Casnewydd (CDC) - Cadeirydd
- Comander Uned Heddlu Lleol, Heddlu Gwent
- Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Casnewydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Uwch gynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Uwch gynrychiolydd o Gyfoeth Naturiol Cymru

- Uwch gynrychiolydd o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Cyfarwyddwr Strategol (Lle), CDC
- Rhai a gaiff eu gwahodd yn ôl yr angen ar gyfer Taclo Tlodi, Grwpiau Agored i Niwed neu unrhyw feysydd pwnc eraill a nodir gan y grŵp

Yn y 12 mis diwethaf, bu meysydd gwasanaeth ar draws yr awdurdod yn cyflenwi 2il flwyddyn Cynllun Cydraddoldeb Strategol CDC, gan gynnwys gweithredu'r Templed Cynllunio Gweithlu a dangosfwrdd data, sydd bellach yn helpu meysydd gwasanaeth i wneud penderfyniadau strategol mwy gwybodus o ran cydraddoldebau, cyflenwi hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' er mwyn gwella ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig, ac ymateb i dros 4000 o atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymorth sy'n seiliedig ar lety a gwasanaethau symudol. Hefyd gwnaed gwaith sylweddol mewn perthynas â safonau'r Iaith Gymraeg er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn fwy gweladwy ar draws yr awdurdod a sefydlu partneriaethau gyda phartneriaid i hyrwyddo addysg cyfrwng Gymraeg.

Dadansoddiad o Fesurau Cenedlaethol Cymru

Cyflwynwyd egwyddorion gosod targedau ym mis Mawrth 2015 i helpu i gynyddu lefelau perfformiad o'u cymharu ag Awdurdodau eraill Cymru; roedd hyn yn gwneud ein targedau'n heriol ond yn fwy ystyrlon ar lefel genedlaethol. Lle'r oedd perfformiad y flwyddyn flaenorol a data Cyfartaledd Cymru ar gael, roedd y 3 egwyddor canlynol yn cael eu cymhwyso;

1. Gwella ar berfformiad y flwyddyn flaenorol a, lle bo hynny'n berthnasol;
2. Eu gosod ar o leiaf cyfartaledd Cymru neu,
3. Eu gosod uwchlaw lefel chwarter 4

Darperir data Cymru Gyfan ar gyfer 2017/18 mewn adroddiad ar wahân ar ôl i Ddata Cymru ryddhau'r data.

Gellir gweld data gwirioneddol diwedd blwyddyn ar gyfer pob mesur cenedlaethol yn y tabl dros y dudalen.

Mesur	Gwirioneddol (YTD)	Targed (YTD)	Sbardun perff.	DoT	Gwirioneddol Y llynedd	Cymharu â'r llynedd	Cyfartaledd Cymru (YTD)	Cyfart'dd Cymru perff.
CYP/27 % o ail-gofrestriadau plant ar Gofrestrau Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol (SSPM) (M)	3.00%	12.00%	★	✔	10.90%	★	6.30%	★
ACS/20b ailalluogi dim pecyn gofal a chymorth (SSPM) (A)	76.00%	50.00%	★	✖	77.80%	●	72.30%	★
PAM/009 % Pobl ifanc NEET Blwyddyn 11 (PAM) (A)	1.30%	1.90%	★	✔	1.70%	★	Amh.	
PAM/015 (PSR/002) Diwrnodau calendr cyfartalog i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) (PAM) (HY)	174	238	★	✔	186	★	224	★
CYP/13 PAM/027 % o blant yn fodlon â'u gofal a chymorth (SSPM, PAM) (A)	88.80%	70.00%	★	▶▶		▶▶	Amh.	!
PAM/021 % o briffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael cyffredinol (PAM) (A)	4.40%	6.00%	★	✖	4.20%	●	4.20%	●
PAM/020 % o briffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael cyffredinol (PAM) (A)	2.60%	3.40%	★	✖	2.60%	●	3.70%	★
PAM/019 % o apeliadau cynllunio a wrthodir (PAM) (Q)	61.5	50	★	✔		▶▶	Amh.	!
ACS/21 Hyd yr amser (dyddiau) mae oedolion mewn cartrefi gofal (SSPM) (M)	868.2	1100	★	✔	817.3	●	800.8	●
ACS/15 PAM/026 % o o ofalwyr sy'n teimlo'n cael eu cefnogi (PAM) (A)	58.7	50	★	▶▶		▶▶	Amh.	!

Allwedd mesur statws COG

- ★ Seren werdd - ar darged
- Cylch oren - ychydig yn fyr o'r targed (goddefiad 15%)
- ▲ Triangl coch - oddi ar y targed (mwy na 15% l ffwrdd)
- ? Pinc - data ar goll / ddim ar gael
- ! Melyn - dim targed wedi ei osod

Cyfeiriad Teithio

- ✔ Tic gwyrdd - perfformiad wedi gwella
- ✖ Croes goch - perfformiad wedi dirywio
- ➔ Du - perfformiad yn aros yr un fath
- Saethau l fyny yn dangos bod gwerthoedd mwy yn well, saethau l lawr yn dangos bod gwerthoedd llai yn well

Mesur	Gwirioneddol (YTD)	Targed (YTD)	Sbardun perff.	DoT	Gwirioneddol Y llynedd	Cymharu â'r llynedd	Cyfartaledd Cymru (YTD)	Cyfart'dd Cymru perff.
ACS/13 PAM/024 % o oedolion yn fodlon â'u gofal a chymorth (SSPM, PAM) (A)	81	70	★	▶▶		▶▶	Amh.	!
CYP/28 Amser cyfartalog yr holl blant a oedd ar y CPR yn ystod y flwyddyn (SSPM) (M)	253.4	300	★	✔	265.3	★	245.1	●
PAM/012 (RIH/L/044) Canran yr aelwydydd y cawsant eu hatal rhag digartrefedd (PAM) (Q)	57.10%	50.00%	★	✔	49.40%	★	Amh.	!
ACS/20a ailalluogi, pecyn gofal a chymorth llai (SSPM) (A)	56.50%	50.00%	★	✔	40.00%	★	28.00%	★
PAM/031 (WMT/004b) Canran y gwastraff trefol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi (PAM, IP7) (Q)	6.29%	7.00%	★	✔	7.79%	★	9.50%	★
ACS/18 Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod (SSPM) (M)	98.90%	90.00%	★	✔	97.80%	★	80.10%	★
ACS/22 Oedran cyfartalog oedolion sy'n mynd i gartrefi gofal preswyl (SSPM) (M)	79.2	75	★	✔	79.3	●	82.8	●
PAM/022 % o brif ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael cyffredinol (PAM) (A)	7.10%	7.40%	★	✖	6.90%	●	15.00%	★
PAM/018 % o'r holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd (PAM) (Q)	88.6	85	★	✖		▶▶	Amh.	!

Allwedd mesur statws COG

- ★ Seren werdd - ar darged
- Cylch oren - ychydig yn fyr o'r targed (goddefiad 15%)
- ▲ Triangl coch - oddi ar y targed (mwy na 15% l ffwrdd)
- ? Pinc - data ar goll / ddim ar gael
- ! Melyn - dim targed wedi ei osod

Cyfeiriad Teithio

- ✔ Tic gwyrdd - perfformiad wedi gwella
- ✖ Croes goch - perfformiad wedi dirywio
- Du - perfformiad yn aros yr un fath

Saethau l fyny yn dangos bod gwerthoedd mwy yn well, saethau i lawr yn dangos bod gwerthoedd llai yn well

Mesur	Gwirioneddol (YTD)	Targed (YTD)	Sbardun perff.	DoT	Gwirioneddol Y llynedd	Cymharu â'r llynedd	Cyfartaledd Cymru (YTD)	Cyfart'dd Cymru perff.
PAM/030 (WMT/009b) Gwastraff trefol aildefnyddiwyd, ei ailgylchu a'i gompostio (PAM) (Q)	59.82%	58.00%	★	✖	61.40%	●	63.81%	●
PAM/011 (STS/006) Cyfraddau Ymateb i Ddileu Digwyddiadau Tipio Anghyfreithlon yr adroddwyd amdanynt (PAM) (M)	99.74%	97.00%	★	✔	98.65%	★	95.37%	★
CYP/31 % o blant sy'n derbyn gofal a oedd wedi cofrestru gyda meddyg teulu o fewn 10 diwrnod gwaith (SSPM) (M)	91.90%	90.00%	★	✔	89.60%	★	91.70%	★
CYP/24 PAM/028 % o'r asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn amserlenni statudol (SSPM, PAM) (M)	91.50%	90.00%	★	✔	95.10%	●	90.80%	★
CYP/34b Ymadawyr gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar y 24ain mis (SSPM) (M)	45.70%	45.00%	★	✖	51.40%	●	47.10%	●
EDU/003 (PAM/004) % y disgyblion sy'n cyflawni'r canlyniad disgwylidig ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (A)	90.10%	89.00%	★	✔	88.80%	★	89.00%	★
EDU/004 (PAM/005) % y disgyblion sy'n cyflawni'r canlyniad Dangosydd Pwnc Craidd (CSI) disgwylidig ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (A)	85.30%	84.40%	★	✔	83.40%	★	86.10%	●
EDU/L/058 (PAM/003) % y disgyblion sy'n cyflawni'r canlyniad disgwylidig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (A)	89.20%	88.40%	★	✔	89.10%	★	Amh.	!

Allwedd mesur statws COG

- ★ Seren werdd - ar darged
- Cylch oren - ychydig yn fyr o'r targed (goddefiad 15%)
- ▲ Triangl coch - oddi ar y targed (mwy na 15% i ffwrdd)
- ? Pinc - data ar goll / ddim ar gael
- ! Melyn - dim targed wedi ei osod

Cyfeiriad Teithio

- ✔ Tic gwyrdd - perfformiad wedi gwella
- ✖ Croes goch - perfformiad wedi dirywio
- ➔ Du - perfformiad yn aros yr un fath

Saethau l fyny yn dangos bod gwerthoedd mwy yn well, saethau i lawr yn dangos bod gwerthoedd llai yn well

Mesur	Gwirioneddol (YTD)	Targed (YTD)	Sbardun perff.	DoT	Gwirioneddol Y llynedd	Cymharu â'r llynedd	Cyfartaledd Cymru (YTD)	Cyfart'dd Cymru perff.
PAM/008 (EDU/016b) Presenoldeb Uwchradd diwedd Blwyddyn % (PAM) (A)	93.60%	93.40%	★	✔	93.30%	★	94.20%	●
PAM/007 (EDU/016a) Presenoldeb Cynradd diwedd Blwyddyn % (PAM) (A)	94.70%	94.60%	★	✔	94.50%	★	94.20%	★
CYP/35 % o ymadawyr gofal sydd wedi dioddef digartrefedd yn ystod y flwyddyn (SSPM) (M)	8.50%	10.00%	●	➔	10.90%	★	10.60%	★
ACS/23a Oedolion sydd wedi derbyn cyngor a chymorth heb ail-gysylltiad (SSPM) (A)	41.90%	40.00%	●	✖	44.80%	▲	67.70%	▲
ACS/19 PAM/025 Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (SSPM, PAM) (M)	6.02	6	●	✖	2.04	▲	2.8	▲
PAM/023 (PPN/009) % o sefydliadau bwyd sy'n cydymffurfio'n gyffredinol â safonau hylendid bwyd (PAM) (Q)	95.00%	96.00%	●	✔	95.10%	●	95.16%	●
CYP/29a % o blant sy'n derbyn gofal sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 (SSPM) (A)	59.40%	60.00%	●	✖	71.40%	▲	56.50%	★
CYP/34a Ymadawyr gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ymhen 12 mis (SSPM) (M)	44.40%	45.00%	●	✔	50.00%	●	52.40%	▲
PAM/010 (STS/005b) Archwiliadau glanweithdra deufisol o briffyrdd a thir perthnasol % (PAM) (BM)	95.80%	97.00%	●	✖	95.50%	★	96.60%	●
CYP/25 % o blant a gefnogir i barhau i fyw yn eu teulu (SSPM) (M)	63.70%	65.00%	●	✖	70.00%	●	69.20%	●

Allwedd mesur statws COG

- ★ Seren werdd - ar darged
- Cylch oren - ychydig yn fyr o'r targed (goddefiad 15%)
- ▲ Triangl coch - oddi ar y targed (mwy na 15% i ffwrdd)
- ? Pinc - data ar goll / ddim ar gael
- ! Melyn - dim targed wedi ei osod

Cyfeiriad Teithio

- ✔ Tic gwyrdd - perfformiad wedi gwella
- ✖ Croes goch - perfformiad wedi dirywio
- ➔ Du - perfformiad yn aros yr un fath

Saethau l fyny yn dangos bod gwerthoedd mwy yn well, saethau i lawr yn dangos bod gwerthoedd llai yn well

Mesur	Gwirioneddol (YTD)	Targed (YTD)	Sbardun perff.	DoT	Gwirioneddol Y llynedd	Cymharu â'r llynedd	Cyfartaledd Cymru (YTD)	Cyfart'dd Cymru perff.
CYP/33 PAM/029 % o blant sy'n derbyn gofal sydd wedi cael 3 lleoliad neu fwy (SSPM, PAM) (M)	9.5	9	●	✓	9.5	★	9.8	★
PAM/001 (CHR/002) Diwrnodau Salwch Cenedlaethol a gollwyd (PAM) (A)	10.05	9.52	●	✖	9.83	●	Amh.	!
CYP/32 % o blant sy'n derbyn gofal sydd wedi newid ysgol 1 waith neu fwy (SSPM) (M)	12.69	12	●	✓	7.95	▲	12.7	★
PAM/016 (LCL/001b) Defnyddio Gwasanaethau Llyfrgell Cyhoeddus (Q) (PAM)	3278.18	3525	●	✓	3291.91	●	5480	▲
EDU/017 (PAM/006) Disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a Mathemateg % (A)	55.50%	60.00%	●	✖	58.40%	●	60.70%	●
PAM/017 (LCS/002b) Ymweliadau â Chanolfannau Chwaraeon a Hamdden fesul 1000 o boblogaeth (PAM) (Q)	7452	8118	●	✓	8038	●	8387	●
ACS/L/23b Oedolion sydd wedi cael cyngor a chymorth - dim ail-gyswilt (75+ oed) (A)	33.80%	40.00%	▲	✖	40.30%	▲	Amh.	
CYP/26 % o blant sy'n derbyn gofal yn dychwelyd adref o ofal (SSPM) (M)	10.10%	13.00%	▲	✖	14.00%	▲	13.60%	▲
PAM/014 Nifer y cartrefi newydd a grëwyd o ganlyniad i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd (PAM) (HY)	22	32	▲	✓		▶▶	Amh.	!
CYP/29b % o blant sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 4 (SSPM) (A)	3.30%	5.00%	▲	✖	7.10%	▲	14.20%	▲

Allwedd mesur statws COG

- ★ Seren werdd - ar darged
- Cylch oren - ychydig yn fyr o'r targed (goddefiad 15%)
- ▲ Triangl coch - oddi ar y targed (mwy na 15% i ffwrdd)
- ? Pinc - data ar goll / ddim ar gael
- ! Melyn - dim targed wedi ei osod

Cyfeiriad Teithio

- ✓ Tic gwyrdd - perfformiad wedi gwella
- ✖ Croes goch - perfformiad wedi dirywio
- ✖ Du - perfformiad yn aros yr un fath

Saethau l fyny yn dangos bod gwerthoedd mwy yn well, saethau i lawr yn dangos bod gwerthoedd llai yn well

Mesur	Gwirioneddol (YTD)	Targed (YTD)	Sbardun perff.	DoT	Gwirioneddol Y llynedd	Cymharu â'r llynedd	Cyfartaledd Cymru (YTD)	Cyfart'dd Cymru perff.
PAM/013 % o eiddo preifat gwag a ddygwyd yn ôl i ddefnydd (PAM) (HY)	1.3	2	▲	✔		▶▶	8.8	▲
CYP/30 % y plant a welwyd gan ddeintydd o fewn 3 mis i dderbyn gofal. (SSPM) (M)	12.70%	40.00%	▲	✖	63.20%	▲	59.40%	▲

Allwedd ar gyfer enwau mesurau:

(PAM) - Mesur Atebolrwydd Cyhoeddus
(SSPM) - Mesur Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol
(A) - Cyfnod adrodd blynyddol
(BM) - Cyfnod adrodd bob dau fis
(HY) - Cyfnod adrodd hanner blwyddyn
(M) - Cyfnod adrodd misol
(C) - Cyfnod adrodd chwarterol

Allwedd mesur statws COG

- ★ Seren werdd - ar darged
- Cylch oren - ychydig yn fyr o'r targed (goddefiad 15%)
- ▲ Triangl coch - oddi ar y targed (mwy na 15% l ffwrdd)
- ❓ Pinc - data ar goll / ddim ar gael
- ! Melyn - dim targed wedi ei osod

Cyfeiriad Teithio

- ✔ Tic gwyrdd - perfformiad wedi gwella
- ✖ Croes goch - perfformiad wedi dirywio
- ➔ Du - perfformiad yn aros yr un fath

Saethau l fyny yn dangos bod gwerthoedd mwy yn well, saethau i lawr yn dangos bod gwerthoedd llai yn well

Argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru a Chynigion ar gyfer Gwella

Dengys y tabl isod y cynnydd a wnaed tuag at yr Argymhellion, a'r Cynigion ar gyfer Gwella a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r awdurdod. Adroddwyd hyn i'r Cabinet yng [Nghynllun Gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru](#) a ystyriwyd yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Mawrth.

Cynlluniau Gweithredu wedi'u diweddarau mewn Ymateb i Argymhellion Asesu Corfforaethol

Cynllun Gweithredu i ymdrin ag Argymhellion SAC

Amlygir y camau a gwblhawyd mewn llwyd

Argymhelliad 1

Argymhelliad 1	Dylai'r Cyngor sicrhau bod yr Aelodau yn ystyried gwybodaeth gadarn yn rheolaidd a thryloyw cyn gynted â phosibl i'w galluogi i hysbysu, cymryd a herio dewisiadau a phenderfyniadau yn effeithiol, a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu cofnodi a'u hadrodd yn dryloyw.
Canlyniad/budd bwriadedig SAC	Mae penderfyniadau a chraffu yn seiliedig ar ystyried gwybodaeth gyfoes a chywir. Caiff penderfyniadau eu cofnodi'n gywir ac yn amserol ar draciwr penderfyniadau'r Cyngor fel y gall y cyhoedd ddarganfod a deall pa benderfyniadau a gymerwyd a chan bwy.
Swyddog Cyfrifol	Prif Weithredwr Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio

Diweddariad ar y cam gweithredu

Cyf	Camau gweithredu cynlluniedig	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma	Wedi ei gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf	Swyddog Cyfrifol
1.1	Bydd Prif Swyddogion yn ystyried yr holl adroddiadau gwneud penderfyniadau ac yn dod i'r	Mawrth 2017	Mae SLT yn derbyn adroddiadau Cabinet er mwyn ystyried cynnwys ac	Mae hyn bellach wedi'i fewnosod yn y broses, ni chynlluniwyd unrhyw gamau pellach.	Prif Weithredwr

Cyf	Camau gweithredu cynlluniedig	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma	Wedi ei gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf	Swyddog Cyfrifol
	casgliad a ydynt o ansawdd digonol cyn eu cyflwyno i'r prosesau gwneud penderfyniadau a chraffu.		ansawdd cyn eu cyflwyno i gylch y Cabinet.		
1.2	Bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd priodol yn cael eu gweithredu o fewn eu meysydd gwasanaeth i sicrhau bod adroddiadau o ansawdd a safon dderbyniol cyn eu cyflenwi i'w cynnwys yn y prosesau gwneud penderfyniadau neu graffu	Gorffennaf 2017	Ystyrir yr Adroddiadau gan Benaethiaid Gwasanaeth cyn ystyried SLT a'u cyflenwi i'r broses gwneud penderfyniadau neu graffu	I barhau â'r broses hon ac asesu ei heffeithiolrwydd	Prif Weithredwr
1.3	Caiff holl benderfyniadau'r Cabinet, Aelodau'r Cabinet a swyddogion dirprwyedig eu cofnodi'n briodol, gan gynnwys gwybodaeth gefndirol, opsiynau a rhesymau dros y penderfyniadau hynny, yn unol â chyfansoddiad a gofynion deddfwriaethol y Cyngor. Cofnodir cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor yn gywir, eu cymeradwyo mewn cyfarfodydd dilynol a'u cyhoeddi yn amserol. Mae pob penderfyniad, adroddiad cefndir a chofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor, gyda pheiriant	Gorffennaf 2017	Mae'r templed newydd yn cael ei ddefnyddio nawr. Mae templed wedi'i ddiweddarau hefyd ar gael ar gyfer adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu	Gweithredwyd	Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio

Cyf	Camau gweithredu cynlluniedig	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma	Wedi ei gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf	Swyddog Cyfrifol
	chwilio i alluogi tracio penderfyniadau a'u canfod yn hawdd.				

Argymhelliad 2

Argymhelliad 2	<p>Dylai'r Cyngor ymdrin â gwendidau gyda mwy o frys yn ei drefniadau llywodraethu sy'n sail i'w benderfyniadau i gefnogi gwelliant. Byddai hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cryfhau trefniadau rhaglennu gwaith pwyllgorau i sicrhau eu bod yn amserol, yn ystyrllon, yn llawn gwybodaeth, yn dryloyw, yn gytwys, yn cael ei fonitro, a'i gydgysylltu; • adolygu a diweddarau cyfansoddiad y Cyngor gan sicrhau bod rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn glir, a bod yr holl Aelodau yn deall ac yn cymhwyso eu rolau priodol mewn perthynas â'i gilydd heb beryglu annibyniaeth; • grymuso Aelodau i fod yn fwy rhagweithiol ac atebol am eu rolau a'u cyfrifoldebau; • cryfhau trefniadau craffu i hysbysu a herio polisiâu, opsiynau, penderfyniadau a chymau gweithredu yn fwy effeithiol, a chynnal Aelodau'r Cabinet, swyddogion, partneriaid ac eraill i roi cyfrif mwy cadarn er mwyn gyrru cynnydd mewn cynnydd a gwelliant; a • chryfhau a gorchymyn rhaglenni datblygu a dysgu aelodau a swyddogion yn seiliedig ar asesiadau cymhwysedd i wella sgiliau a dealltwriaeth i'w galluogi i ymgymryd â'u rolau'n fwy effeithiol.
Canlyniad/budd bwriadedig SAC	<ul style="list-style-type: none"> • Mae meysydd ffocws pob un o'r pwyllgorau yn glir, yn gysylltiedig â blaenoriaethau corfforaethol, yn cael eu diweddarau'n rheolaidd a'u hystyried mewn fforwm agored. • Mae cyfansoddiad y Cyngor yn adlewyrchu'r trefniadau presennol yn gywir ac yn nodi'n glir rolau a chyfrifoldebau. • Gall yr aelodau gyflawni eu rolau yn effeithiol ac maent yn cael eu dal i gyfrif am y rolau hyn. • Defnyddir craffu yn effeithiol i lywio datblygiad polisi a chynnal Aelodau'r Cabinet a swyddogion i gyfrif am berfformiad. • Mae gan aelodau a swyddogion y cyfarpar a'r gefnogaeth i ymgymryd â'u rolau.

Diweddariad ar y cam gweithredu

Cyf	Camau gweithredu cynlluniedig	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma	Wedi ei gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf	Swyddog Cyfrifol
2.1	I ddatblygu'r defnydd o gyn-gyfarfodydd y Pwyllgor er mwyn canolbwyntio her yn fwy effeithiol a gwella ansawdd y cwestiynu. (Craffu AR Cam Gweithredu 1)	Gorffennaf 2017	Mae cyn-gyfarfodydd yn parhau ar gyfer y pwyllgorau craffu newydd	Gweithredwyd	Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
2.2	I gyflwyno system effeithiol ar gyfer craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, mewn ymateb i'r ddyletswydd statudol a osodir ar graffu gan WFGA (Craffu AR Cam Gweithredu 2)	Erbyn Ebrill 2018	Cytunwyd ar strwythur pwyllgor archwilio newydd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni, gan gynnwys pwyllgor ar wahân ar gyfer craffu ar y bartneriaeth.	Gweithredwyd	Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
2.3	I gyflwyno templed adroddiad newydd i wella ansawdd a ffocws y wybodaeth a gyflwynir i'r Pwyllgorau (Craffu AR Cam Gweithredu 3)	Erbyn cylch cyfarfodydd Tachwedd 2016	Cyflwynwyd templed newydd ac mae'n cael ei ddefnyddio	Gweithredwyd	Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
2.4	Parhau i ddatblygu'r cysylltiadau rhwng Craffu ac Archwilwyr/ Arolygwyr/ Rheoleiddwyr, yn arbennig i gefnogi rhaglenni a hyfforddiant gwaith (Craffu AR Cam Gweithredu 4)	Parhaus	Bydd canlyniadau'r adolygiad cyfoedion â Chaerffili a Sir Fynwy yn cael eu hadrodd yn yr Adroddiad Blynyddol Craffu.	Gweithredwyd	Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio

Cyf	Camau gweithredu cynlluniedig	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma	Wedi ei gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf	Swyddog Cyfrifol
2.5	Parhau i weithredu'r Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd a gytunwyd yn 2015 (Craffu AR Cam Gweithredu 5)	Erbyn Ebrill 2017	Gweithredu parhaus. Rydym yn y broses o adolygu cynnwys y wefan.	Gweithredwyd	Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
2.6	Cyflwynir rhaglenni gwaith y Cabinet i bob cyfarfod cabinet	Erbyn Ebrill 2017	Gweithredwyd hyn ac mae'n barhaus	Gweithredwyd	Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
2.7	Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd yn adolygu gwahanol elfennau'r Cyfansoddiad.	Parhaus	Gweithredwyd hyn ac mae'n barhaus	Gweithredwyd	Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
2.8	I ddatblygu'r defnydd o gyn-gyfarfodydd y Pwyllgor er mwyn canolbwyntio her yn fwy effeithiol a gwella ansawdd y cwestiynu. (Craffu AR Cam Gweithredu 1)	Gorffennaf 2017	Gweler 2.1 uchod	Gweithredwyd	Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
2.9	I gyflwyno templed adroddiad newydd i wella ansawdd a ffocws y wybodaeth a gyflwynir i'r Pwyllgorau (Craffu AR Cam Gweithredu 3)	Erbyn cylch cyfarfodydd Tachwedd 2016	Gweler 2.3 uchod	Gweithredwyd	Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
2.10	I ddatblygu'r defnydd o gyn-gyfarfodydd y Pwyllgor er mwyn canolbwyntio her yn fwy effeithiol a gwella ansawdd y cwestiynu. (Craffu AR Cam Gweithredu 1)	Gorffennaf 2017	Gweler 2.1 a 2.8 uchod	Gweithredwyd	Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
2.11	I barhau â chyfarfodydd rheolaidd	Cyfarfodydd	Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng	Mae cyfarfodydd pellach y	Pennaeth y

Cyf	Camau gweithredu cynlluniedig	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma	Wedi ei gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf	Swyddog Cyfrifol
	Cadeiryddion Craffu, Tîm Swyddogion Craffu ac Aelodau blaenllaw'r Weithrediaeth, i sicrhau bod perthynas gadarnhaol yn parhau, a bod llwythi gwaith yn cael eu cydlynu'n effeithiol (Craffu AR Cam Gweithredu 6)	eisoes wedi'u rhoi yn y dyddiadur	Cadeiryddion Craffu, a threfnir cyfarfodydd pellach ar gyfer mis Mawrth a mis Ebrill. Mae'r Cadeiryddion yn monitro'r camau gweithredu yn yr Adroddiad Blynyddol Craffu ar gyfer gwella craffu, monitro cynnydd o fewn y swyddogaeth Graffu ac asesu effaith newidiadau cytunedig i brosesau (megis cyn cyfarfodydd, sesiynau briffio, templedi adroddiadau, nodiadau briffio).	Cadeiryddion wedi'u trefnu ac mae'r Cadeiryddion yn gweithio trwy raglen o welliannau a datblygiadau gyda Chraffu - gan sicrhau cysondeb rhwng dull y 4 Pwyllgor.	Gyfraith a Rheoleiddio
2.12	Datblygu rôl briodol i Graffu o fewn y trefniadau newydd i reoli perfformiad, ac adeiladu ar y mesurau presennol ar gyfer monitro'r cynllun gwasanaeth (Craffu AR Cam Gweithredu 7)	Erbyn Rhagfyr 2017	Rydym yn cyflenwi system newydd ar gyfer adrodd am berfformiad, gan gynnwys ystyriaeth o graffu.	Gweithredwyd	Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
2.13	Diweddaru a chyflwyno'r rhaglen hyfforddiant a seminar ar gyfer Aelodau, gan gynnwys hyfforddiant i gefnogi: - Craffu ar y gyllideb - Craffu ar berfformiad - Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Craffu AR Gweithredu 8)	Gorffennaf 2017	Mae hyfforddiant ar gyfer y Pwyllgorau newydd ar y gweill.	Gweithredwyd	Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
2.14	Gweithio gyda'r Aelodau cyfredol i ddatblygu rhaglen sefydlu craffu	Gorffennaf 2017	Gweithredwyd y rhaglen.	Gweithredwyd	Pennaeth y Gyfraith a

Cyf	Camau gweithredu cynlluniedig	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma	Wedi ei gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf	Swyddog Cyfrifol
	effeithiol ar gyfer Aelodau Etholedig ar ôl etholiad 2017. (Craffu AR Gweithredu 9)				Rheoleiddio

Argymhelliad 4

Argymhelliad 4	<p>Rhaid i'r Cyngor barhau i ddatblygu ei drefniadau rheoli pobl, i sicrhau bod ganddo'r capasiti a'r galluoedd angenrheidiol i newid a gwella. Wrth wneud hynny, dylai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • barhau i ddatblygu ei Gynllun Gweithlu drafft a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig, ar gyfer pob cam gweithredu: dyrannu cyfrifoldeb i swyddog a phennu dyddiad cau i'w gwblhau; ac • yn absenoldeb dull ffurfiol o roi adborth 360 gradd i'r holl staff, ymdrin ag anghysondeb rheoli o ran cynnal arfarniadau a sicrhau bod yr holl staff yn derbyn arfarniad adeiladol a datblygiadol i gefnogi perfformiad swydd.
Canlyniad/budd bwriadedig SAC	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio gweithlu effeithiol ar waith, a fydd yn ei helpu i gyflawni ei weledigaeth a'i flaenoriaethau. • Cynhelir arfarniadau staff yn gyson ac i safon dda a defnyddir y rhain i lywio datblygiad staff.
Swyddog Cyfrifol	Pennaeth Pobl a Newid Busnes

Diweddariad ar y cam gweithredu

Cyf	Camau gweithredu cynlluniedig	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma	Wedi ei gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf	Swyddog Cyfrifol
4.1	Creu grŵp adolygu cynllun gweithlu	Chwefror 2016	Cwblhawyd		Pennaeth Pobl a Newid Busnes
4.2	Cyhoeddi'r cynllun gweithlu	Mehefin 2016	Cwblhawyd		Pennaeth Pobl a

Cyf	Camau gweithredu cynlluniedig	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma	Wedi ei gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf	Swyddog Cyfrifol
					Newid Busnes
4.3	Ail fersiwn o'r cynllun gweithlu ar waith ar gyfer 2016/17	Mehefin 2016	Cwblhawyd		Pennaeth Pobl a Newid Busnes
4.4	Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol i gwrdd â Phennaeth y Gwasanaeth i drafod amcanion y gweithlu ar gyfer 2016/17	Mehefin 2016 ymlaen	Cwblhawyd		Pennaeth Pobl a Newid Busnes
4.5	Amcan 2016/17 ar gyfer cynllunio gweithlu wedi ei osod mewn cynllunio gwasanaeth ac amcanion unigol	Mai 2016	Cwblhawyd		Pennaeth Pobl a Newid Busnes
4.6	Cynnal archwiliad hunanasesu i asesu perfformiad cyfredol a nodi blaenoriaethau yn y dyfodol	Rhagfyr 2016	Cwblhawyd		Pennaeth Pobl a Newid Busnes
4.7	Cynnal hyfforddiant gwell ar gynllunio'r gweithlu i holl swyddogion AD/OD	Rhagfyr 2016	Cwblhawyd		Pennaeth Pobl a Newid Busnes
4.8	Adborth i reolwyr ar ansawdd y gwerthusiadau a samplwyd	Hydref 2016	Darparu adborth ar sampl o werthusiadau		Pennaeth Pobl a Newid Busnes
4.9	Ymchwilir yr opsiynau i adolygu'r prosesau presennol i ddod â thechnoleg yn y cylch PM a moderneiddio'r system	Gorffennaf 2017	Cyflwynwyd system rheoli perfformiad amser real yn dilyn peilot llwyddiannus i ddisodli'r arfarniad blynyddol. Erbyn hyn mae'n ofynnol i reolwyr gyfarfod yn fisol i drafod	Cwblhawyd	Pennaeth Pobl a Newid Busnes

Cyf	Camau gweithredu cynlluniedig	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma	Wedi ei gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf	Swyddog Cyfrifol
			perfformiad gyda gweithwyr ac asesu'r cynnydd ar berfformiad amser real, nid aros tan ddiwedd y flwyddyn.		
4.10	Adolygiad o'r cwrs Hyfforddi ar gyfer Perfformiad a gwneud argymhellion ar gaffael yn y dyfodol	Awst 2016	Cynhaliwyd yr adolygiad a byddwn yn parhau i redeg y cwrs ond yn ychwanegu cymorth hyfforddi ychwanegol ar ffurf cymwysterau ILM	Gweithredwyd	Pennaeth Pobl a Newid Busnes
4.11	Nodi atebion i gynnig cymwysterau ILM hyfforddi a mentora	Awst 2016	Nodwyd ILM mewn hyfforddi a mentora ac ymunodd carfan o 14 rheolwr - dechreuodd hyn ym mis Ionawr 2017	Gweithredwyd	Pennaeth Pobl a Newid Busnes
4.12	Creu rhwydwaith set dysgu gweithredu	Hydref 2016	Nodi setiau ILM mewn dysgu gweithredu a'u cynnig i reolwyr ond mae'r nifer sy'n manteisio'n isel ar y pwynt hwn. Cynhaliwyd set ddysgu anffurfiol mewn un maes gwasanaeth ym mis Tachwedd. Bydd ffocws ar hyfforddi ar hyn o bryd	Gweithredwyd	Pennaeth Pobl a Newid Busnes

Argymhelliad 5

Argymhelliad 5	<p>I gryfhau'r trefniadau sy'n galluogi'r Cyngor i graffu ar ei amcanion gwella. Wrth wneud hynny, dylai'r Cyngor:</p> <ul style="list-style-type: none"> Alluogi'r Aelodau i herio a chraffu ar berfformiad gwasanaeth yn effeithiol:
-----------------------	---

	<ul style="list-style-type: none"> ○ sicrhau bod agendâu cyfarfodydd yn caniatáu digon o amser i'r Aelodau ganolbwyntio ar danberfformio (bras); a ○ darparu hyfforddiant ar her a chraffu effeithiol i Aelodau.
Canlyniad/budd bwriadedig SAC	<p>Rhoddir gwybodaeth gywir ac amserol i'r aelodau i'w galluogi i herio perfformiad a chynnydd yn erbyn amcanion gwella yn effeithiol. Nodir camau adferol a'u symud ymlaen.</p> <p>Caiff perfformiad ei drafod a'i herio'n aml trwy graffu ac mae gan yr aelodau ddigon o amser i wneud hynny. Mae gan yr aelodau'r sgiliau angenrheidiol i herio a chraffu yn effeithiol.</p>
Swyddog Cyfrifol	Pennaeth Pobl a Newid Busnes

Diweddariad ar y cam gweithredu

Cyf	Camau gweithredu cynlluniedig	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma	Wedi ei gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf	Swyddog Cyfrifol
5.1	Mae fframwaith adrodd Perfformiad newydd yn ei le yn sicrhau y darperir mwy o wybodaeth i graffu ac Aelodau'r Cabinet mewn modd mwy amserol.	Fframwaith wedi ei gytuno gan y Cabinet a Chadeiryddio n Craffu Medi 2016	Hwn wedi ei weithredu erbyn hyn	Ni chynllunnir gweithredu pellach	Pennaeth Pobl a Newid Busnes
5.2	Bydd y system rheoli perfformiad newydd yn caniatáu i wybodaeth am berfformiad fod yn fwy gweladwy ac ar gael yn rhwydd o gwmpas yr awdurdod.	Gweithredwy d system newydd yn Ebrill 2016. Datblygiad pellach yn parhau.	Gwnaed gwaith pellach ar y system gan Swyddog Rheoli Perfformiad. Mae cynllun datblygu ar y gweill a chyflwynwyd hyfforddiant pellach. Bellach mae llawer mwy o ddefnyddwyr sy'n gallu defnyddio'r system i weld a gwneud sylwadau ar berfformiad.	Mae'r system bellach wedi cael ei gweithredu ar gyfer data rheoli perfformiad. Bydd y system yn parhau i gael ei datblygu ar gyfer meysydd eraill.	Pennaeth Pobl a Newid Busnes

Cyf	Camau gweithredu cynlluniedig	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma	Wedi ei gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf	Swyddog Cyfrifol
5.3	Dangoswrdd ac adroddiadau eithriadol ar gyfer cynlluniau gwasanaeth yn tynnu sylw at feysydd allweddol.	Gorffennaf 2017	Bydd Cynlluniau Gwasanaeth yn cael eu haddasu i gynnwys yr un cyfnod amser â'r cynllun corfforaethol gydag adolygiadau rheolaidd o gynnydd a chynnwys. Bydd hyn yn sicrhau bod y cynlluniau gwasanaeth yn cefnogi cyflenwi'r cynllun corfforaethol ac yn caniatáu i feysydd gwasanaeth gynllunio yn y tymor byr a'r tymor hirach.	Datblygwyd fframwaith adrodd newydd ar y cyd ag Aelodau Craffu, ac mae Aelodau Craffu yn derbyn gwybodaeth am berfformiad yn rheolaidd mewn fformat cytunedig. Wrth i gynlluniau gwasanaeth gael eu datblygu, cytunir ar fformat ar gyfer adrodd gyda Chadeiryddion Craffu.	Pennaeth Pobl a Newid Busnes
5.4	Mae adroddiadau perfformiad sy'n mynd i'r Cabinet nawr yn mynd i Gadeiryddion Craffu er gwybodaeth.	Cabinet wedi cytuno ar y Fframwaith Medi 2016	Hwn wedi ei weithredu erbyn hyn, anfonwyd diweddariad cynllun gwella manwl Cabinet i Graffu er gwybodaeth am Chw1	Ni chynllunnir gweithrediadau pellach, bydd hyn yn barhaus.	Pennaeth Pobl a Newid Busnes
5.5	Mae Penaethiaid Gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd briffio rheolaidd gydag Aelodau'r Cabinet sydd, yn eu tro, yn briffio Arweinydd y Cyngor.	Cabinet wedi cytuno ar y Fframwaith Medi 2016	Mae Penaethiaid Gwasanaeth wedi cael cyfarfodydd briffio rheolaidd gydag Aelodau'r Cabinet. Yna mae Aelodau'r Cabinet yn briffio Arweinydd y Cyngor.	Mae hyn bellach wedi'i wreiddio, ni chynllunnir gweithrediadau pellach.	Prif Weithredwr

Cyf	Camau gweithredu cynlluniedig	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma	Wedi ei gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf	Swyddog Cyfrifol
5.6	Rydym wedi sefydlu rhaglen hyfforddiant a seminar ar gyfer Aelodau Craffu, ac rydym hefyd wedi cyflenwi cyn-gyfarfodydd i wella ffocws a her cwestiynau Aelodau. Rydym hefyd yn datblygu'r rhaglen sefydlu newydd ar gyfer Mai 2017 a fydd yn cynnwys canolbwyntio ar her effeithiol.	Systemau ar waith ac mewn Rhaglen Sefydlu datblygu parhaus o fis Mai 2017	<p>Cyflenwyd rhaglen sefydlu.</p> <p>Rydym wedi newid yr amserlennu ar gyfer gwybodaeth am berfformiad, fel bod monitro amcanion gwella a gwybodaeth perfformiad arall yn cael eu cyflwyno i graffu cyn y Cabinet, fel bod sylwadau craffu yn cael eu hystyried fel rhan o broses y Cabinet.</p> <p>Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Tachwedd i ddechrau gweithio tuag at Siarter Datblygu Aelodau CLILC. Bydd y Pwyllgor yn derbyn cynllun gweithredu ar ddatblygu Aelodau ar ôl ei lunio, a chaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor am eu mewnbwn. Y nod yw cyflawni'r Siarter mewn dwy flynedd.</p>	Gweithio tuag at Siarter Datblygu Aelodau CLILC.	Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio

Cynigion ar gyfer Gwella Swyddfa Archwilio Cymru

Cynnig ar gyfer Gwella 1

Cynnig ar gyfer Gwella 1	Dylai'r Cyngor: Darparu diweddariad manylach i'r Cabinet wrth ymdrin â'r Asesiad Corfforaethol a'i argymhellion Dilynol i hwyluso trafodaeth fwy gweithredol a her o'r cynnydd.
Canlyniad/budd bwriadedig SAC	Mae'r Cabinet yn gallu herio a monitro cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu'r Asesiad Corfforaethol a deall y rhesymau dros oedi a nodi camau pellach yn ôl yr angen. Ceir trafodaeth agored o gynnydd yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus er mwyn i'r cyhoedd ac aelodau weld y cynnydd a wneir.
Swyddog Cyfrifol	Pennaeth Pobl a Newid Busnes

Diweddariad ar y cam gweithredu

Cyf	Camau gweithredu cynlluniedig	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma	Wedi ei gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf	Swyddog Cyfrifol
1.1	Adroddir ar y cynllun gweithredu fel adroddiad ar wahân yn ei hawl ei hun; bydd hyn yn codi ei broffil gydag Aelodau gan y bydd yn eitem ar yr agenda.	Bydd yr adroddiad cyntaf yn mynd i'r cabinet ar 17 ^{eg} Hydref.	Mae'r Cabinet wedi derbyn yr Adolygiad o gynnydd wrth ymdrin â'r Asesiad Corfforaethol ac argymhellion Dilynol yr Asesiad Corfforaethol 2015/16. Bellach mae'r diweddariad Chwarterol ar gynnydd yn erbyn yr Argymhellion Asesu Corfforaethol a'r Cynigion ar gyfer gwelliant yn cael eu hystyried gan y cabinet fel adroddiad ynddo'i hun.	Ni chynllunnir gweithredu pellach	Pennaeth Pobl a Newid Busnes
1.2	Bydd y cynllun gweithredu yn	Ionawr 2017	Bydd y broses adrodd a amlinellir	Dim gweithredu pellach, mae hyn	Pennaeth

Cyf	Camau gweithredu cynlluniedig	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma	Wedi ei gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf	Swyddog Cyfrifol
	darparu diweddariad manylach o'r cynnydd a wnaed.		mewn ymateb i Argymhelliad 1 (cyf. 1.1 a 1.2) yn sicrhau bod digon o fanylion yn cael eu cynnwys. Mae'r diweddariad Chwarterol bellach wedi'i gyflwyno i'r Prif Swyddogion cyn ei gyflwyno i'r Cabinet i sicrhau bod digon o fanylion wedi'u cynnwys.	nawr yn rhan o'r broses.	Pobl a Newid Busnes

Cynnig ar gyfer Gwella 2

Cynnig ar gyfer Gwella 2	Adolygu'r amserlen ar gyfer cwblhau cyfweiliadau dychwelyd i'r gwaith.
Canlyniad/budd bwriadedig SAC	Cynhelir cyfweiliadau dychwelyd i'r gwaith yn fwy amserol er budd y Cyngor a'r gweithiwr.
Swyddog Cyfrifol	Pennaeth Pobl a Newid Busnes

Diweddariad ar y cam gweithredu

Cyf	Camau gweithredu cynlluniedig	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma	Wedi ei gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf	Swyddog Cyfrifol
2.1	Mae Casnewydd yn yr ail chwarter ar gyfer absenoldeb salwch yn seiliedig ar ddata 2015/16, ac mae'n gydradd 7fed yn seiliedig ar nifer y diwrnodau a gollwyd fesul CALI.	Medi 2017	Rydym wedi cyflwyno Rheolwr Pobl ar ITrent i reolwyr yn y sefydliad. Rydym yn rhagweld y bydd y camau gweithredu hyn yn lleihau'r amser i gwblhau	Ystyriaeth bellach o gael gwared ar y ffurflen bapur a symud i ffurflen ar-lein. Rydym wedi adolygu'r opsiwn o	Pennaeth Pobl a Newid Busnes

Cyf	Camau gweithredu cynlluniedig	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma	Wedi ei gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf	Swyddog Cyfrifol
	<p>Mae ein polisi'n defnyddio arfer gorau o 7 diwrnod calendr ar gyfer cwblhau ffurflen dychwelyd i'r gwaith (RTW) ac er nad ydym yn cyflawni cyflwyniad 100%, nid ydym yn credu y bydd lleihau'r amserlen yn sicrhau mwy o gyfraddau ymateb. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio symud o system bapur i un ar-lein mewn ymgais i wella'r cyfraddau cyflwyno gan ein bod o'r farn bod cwblhau dogfennau papur yn cael mwy o effaith ar gyfraddau cyflwyno hwyr.</p>		<p>cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a byddant yn cynyddu canran y cyflwyniadau o fewn yr amserlen.</p> <p>Cyflwynwyd hunanwasanaeth y Rheolwr Pobl mewn perthynas ag absenoldeb salwch ar draws y Cyngor</p> <p>Parha Casnewydd i berfformio'n dda yn genedlaethol am ddiwrnodau salwch a gollwyd, ac mae'n parhau yn yr ail chwarter, uwchlaw cyfartaledd Cymru.</p> <p>Nid ydym wedi gallu gweithredu'r sgrin dychwelyd i'r gwaith (RTW) ar-lein yn iTrent oherwydd oedi anorfodadwy. Amcangyfrifir y bydd hyn yn digwydd yn Ebrill 2018.</p>	<p>symud i ffurflen ar-lein, ond rydym bellach yn ystyried dileu'r ffurflen yn gyfan gwbl ac adeiladu sgrin iTrent i reolwyr logio manylion yr RTW pan fyddant yn cau'r cyfnod o salwch yn y drafodaeth RTW gyda'r gweithiwr – gan ddileu'r ffurflen yn gyfan gwbl. Dylai hyn gael gwared ar bob cwblhad RTW hwyr gan fod rheolwyr yn cynnal trafodaeth RTW ar yr un pryd â chau'r salwch ar iTrent. Rhagwelir y bydd hyn yn digwydd ym mis Ebrill 2018.</p> <p>Yn ogystal, byddwn yn gweithio gydag ysgolion i ymchwilio i'r rhesymau dros gyflwyno'n hwyr o gwmpas amser gwyliau ysgol gan fod cyfraddau cyflwyno ysgol ar amser yn sylweddol is na chyfraddau corfforaethol.</p>	

Cynnig ar gyfer Gwella 3

Cynnig ar gyfer Gwella 3	Adolygu a oes gan y Cyngor gapasiti a gallu priodol o fewn ei ardal gwasanaeth Pobl a Newid Busnes i gryfhau cynllunio gweithlu.
Canlyniad/budd bwriadedig SAC	Mae gan y Cyngor hyder bod ganddo'r adnoddau a'r gefnogaeth angenrheidiol i ymdrin â chynllunio'r gweithlu i fodloni ei flaenoriaethau a'i weledigaeth.
Swyddog Cyfrifol	Pennaeth Pobl a Newid Busnes

Diweddariad ar y cam gweithredu

Cyf	Camau gweithredu cynlluniedig	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma	Wedi ei gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf	Swyddog Cyfrifol
3.1	Bu cynllunio'r gweithlu yn thema'r cynllun gwasanaeth AD ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf, a dynodwyd swyddogion arweiniol i sicrhau bod cynllunio'r gweithlu yn rhan annatod o'r gwasanaeth AD. Rydym wedi ymweld â Chynghorau Bro Morgannwg, Abertawe a Rhondda Cynon Taf i ddysgu o'u harferion gorau a chymhwyso'r wybodaeth hon yng Nghasnewydd. Bwriedir cynnal offeryn archwilio hunanasesiad SAC i adolygu ein cynnydd a nodi blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Hyfforddir swyddogion yn effeithiol ar gynllunio gweithlu. Mae risg o ran capasiti yn y tîm AD/ OD gan fod gan Gasnewydd gryn dipyn yn llai o CALI	Medi 2017	Cyhoeddwyd Cynllun Gweithlu 2016/17 ac mae pob maes gwasanaeth wedi cwblhau eu templed ar gyfer y flwyddyn gan nodi eu hamcanion cynllunio gweithlu. Mae Partneriaid Busnes AD yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth i drafod eu templedi fel rhan o drafodaethau busnes arferol ac mae gan bob aelod o'r tîm Adnoddau Dynol gyfraniad at yr adroddiad cynnydd ar gynllunio gweithlu. Rhoddwyd cyfrifoldeb i SHRBP am hyrwyddo cynllunio gweithlu	Ar hyn o bryd yn gweithio ar gynllun gweithlu tymor hwy ar gyfer y sefydliad a fydd yn cyfateb i'r Cynllun Pobl nesaf – h.y. cynllun 5 mlynedd ar gyfer y ddau	Pennaeth Pobl a Newid Busnes

Cyf	Camau gweithredu cynlluniedig	Dyddiad cwblhau	Cynnydd hyd yma	Wedi ei gynllunio ar gyfer y chwarter nesaf	Swyddog Cyfrifol
	AD na Chynghorau tebyg, a bydd angen asesu blaenoriaethau yn unol â hynny.		<p>gyda meysydd gwasanaeth.</p> <p>Cynhwyswyd y camau gweithredu sy'n ofynnol ar gyfer cynnydd gyda'r cynllun gweithlu yn y Strategaeth Pobl a Diwylliant.</p>	<p>Mae'r Strategaeth Pobl a Diwylliant ddrafft yn cynnwys elfen o gynllunio gweithlu, a disgwylir iddi gael ei chadarnhau drwy'r broses wleidyddol erbyn Mawrth 2018.</p> <p>Byddwn yn cynnal ymarfer hunanasesu cynllunio gweithlu yn ystod y chwarter nesaf.</p>	